Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Cod Ymddygiad Myfyriwr a Gweithdrefn Ddisgyblu

2025/26

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

**Cynnwys**


1 Diben y Polisi ....2
2 Egwyddorion Cyffredinol....2
3 Ymchwiliadau'r Heddlu ac Achosion Cyfreithiol ....4
4 Cefnogaeth ....4
5 Diogelu ....5
6 Datganiadau Polisi Cysylltiedig (y mae'r Weithdrefn Ddisgyblu hefyd yn gweithredu) ....5
6.1 Datganiad Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio ....5
6.2 Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ....6
6.3 Datganiad Polisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin yn y Cartref ....7
7 Cod Ymddygiad ....7
8 Gweithdrefn Ddisgyblu ....9
9 Proses Mesurau Rhagofalus ....10
9.1 Datgeliadau ac Adroddiadau ....10
9.2 Cyfarfod Adolygu Cychwynnol....11
9.3 Gweithdrefn Gwaharddiad Rhagofalus Brys ....12
10 Cam Anffurfiol (Cam 1) ....13
10.1 Sut fydd Cam 1 (cam anffurfiol) yn mynd yn ei flaen ....13
11 Cam Ffurfiol (Cam 2) ....14
11.3 Cam Ffurfiol (Cam 2): Yr Ymchwiliad ....14
11.4 Canfyddiadau'r ymchwiliad ....16
11.5 Cyfarwyddyd ar gyfer Ystyried yr Adroddiad Ymchwilio ....17
11.6 Y Cyfweliad Disgyblu ....17
11.7 Paratoi ar gyfer Gwrandawiad y Panel Disgyblu ....18
11.8 Ymddygiad Gwrandawiad y Panel Disgyblu ....20
11.9 Canfyddiadau'r Panel ....21
12 Cosbau ....22
13 Y Broses Apelio yn erbyn penderfyniad y Gwrandawiad Disgyblu. ....24
14 Colegau a Sefydliadau Partner ....27
15 Cyfrinachedd a Diogelu Data ....27
16 Y Gymraeg....28
17 Hyfforddi, Monitro ac Adolygu ....28
18 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIAHE) ....28
19 Hygyrchedd....28
20 Atodiad 1 - Diffiniadau ....30

## 1 Diben y Polisi

1.1 Mae'r polisi yn amlinellu'r dull y bydd y Brifysgol o fynd i'r afael ag ymddygiad myfyriwr mewn perthynas â:

- Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio.
- Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin yn y Cartref.
- Pryderon eraill ynghylch disgyblaeth sydd heb gael eu cynnwys gan yr uchod neu gan Addasrwydd i Ymarfer.

1.2 Ei bwrpas yw darparu arweiniad eglur ar brosesau sy'n gysylltiedig gydag ymddygiad myfyrwyr, bod yn eglur ynghylch y sail y bydd y Brifysgol yn gwarchod safonau academaidd a chefnogi dysgu myfyrwyr orau gan gynnwys yn unol â gofynion Cod Ansawdd y DU Yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

1.3 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd aflonyddu sy'n gysylltiedig ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, ethnigrwydd neu darddiad cenedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at Bolisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol.

1.4 Mae'r Ddeddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 hefyd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i ymgymryd ag ymddygiad rydych chi'n gwybod, neu y dylech chi fod yn gwybod, ei fod yn aflonyddu, sy'n cynnwys achosi dychryn rhywun neu achosi gofid.

1.5 Bydd pryderon Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hystyried dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

1.6 Bydd pryderon ynghylch Uniondeb Academaidd yn cael eu hystyried dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.

## 2 Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch tra'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i holl aelodau ei chymuned drin ei gilydd â pharch, a bod yn gwrtais ac yn ystyrlon bob amser.

2.2 Mae'r Brifysgol yn gweithredu agwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiadau o aflonyddu, bwlio, troseddau casineb, camymddwyn rhywiol, a phoenydio dioddefwyr ac yn ceisio hyrwyddo triniaeth deg o fyfyrwyr drwy weithredu'r weithdrefn hon.

2.3 Bydd y Brifysgol yn darparu fframwaith y gellir archwilio honiadau oddi mewn iddi a'u datrys yn answyddogol os yn bosib, cyn belled ag y bo cefnogaeth ar gyfer y myfyriwr sy'n mynegi'r pryder a'r person y gwneir yr honiad yn ei erbyn. Lle caiff honiad ei ddatrys yn anffurfiol, bydd hyn yn cael ei archwilio a gallai arwain at gamau gweithredu disgyblu. Mae'r broses ar gyfer camau

gweithredu disgyblu yn cael eu cynnwys o fewn y weithdrefn hon. Ar bob cam, bydd y Brifysgol yn ceisio cefnogi unrhyw fyfyriwr sy'n gysylltiedig gyda'r broses, gan gynnwys Myfyriwr/Myfyrwyr sy'n Adrodd, Myfyriwr/Myfyrwyr sy'n Ymateb ac unrhyw dystion.

2.4 Mae gweithdrefn ar wahân yn ei lle ar gyfer camau gweithredu disgyblu ar gyfer staff, a gellir dod o hyd i wybodaeth bellach gan Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol.

2.5 Nod y Brifysgol yw cydbwyso hawliau'r person sy'n gwneud yr honiad (y parti sy'n adrodd) a'r rhai o eiddo unrhyw berson y gwneir yr honiad yn ei erbyn (y parti ymatebol); rhaid i bob parti gael ei drin gydag urddas a pharch. Ni ddylai myfyriwr ddisgwyl dioddef unrhyw ddial am wneud honiad didwyll, a dylai unrhyw dystiolaeth o edliw gael ei ddwyn yn syth i sylw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr.

2.6 Os oes rheswm i gredu bod honiad yn faleisus neu'n flinderus, mae'n bosib y bydd yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad yn atebol i weithdrefnau ddisgyblu.

2.7 Gall y Brifysgol benderfynu, ar unrhyw gam, nad yw'n gallu ystyried honiad gan fyfyriwr ymhellach os oes tystiolaeth bod yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad wedi:

- Bod yn ymosodol neu dreisgar tuag at staff neu fyfyrwyr eraill.
- Gwneud galwadau sy'n afresymol o fewn y gyfres o amgylchiadau e.e. mewn perthynas â chyfyngau amser, yn arbennig felly ymwneud staff neu broblemau eraill.

2.8 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi'u hymrestru'n swyddogol ar raglen astudio ym Mhrifysgol Wrecsam, gan gynnwys rhai sydd â safonau a chymwyseddau Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB) y mae eu hymddygiad proffesiynol ac ymarfer yn ystod y cyfnod o astudiaeth academaidd yn elfen allweddol o'u cynnydd boddhaol tuag at ddyfarniad a thuag at gydnabyddiaeth broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys yr holl fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar raglenni astudio o'r fath gan Brifysgol Wrecsam mewn sefydliadau partner neu drwy gytundeb allgymorth.

2.9 Bydd y weithdrefn yn berthnasol waeth beth fo unrhyw ataliad/tynnu'n ôl o gofrestriad a ofynnir gan y myfyriwr. Lle mae myfyriwr (Adrodd neu Ymateb) yn cael ei wahardd neu ei dynnu'n ôl o'r Brifysgol a bod honiad dan y weithdrefn hon ar waith, bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn penderfynu p'un ai i fwrw ymlaen gydag ymchwilio i'r honiadau. Pwrpas parhau â'r ymchwiliad fyddai sicrhau y byddai digon o wybodaeth a datganiadau tystion ar gael pe bai'r myfyriwr yn ceisio ailymuno â'r Brifysgol. Yn dilyn gwahardd/tynnu'n ôl y myfyriwr Ymatebol, gall yr achos gael ei ohirio. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Myfyriwr sy'n Adrodd yn cael ei hysbysu nad yw'r archwiliad sy'n cael ei gynnal, mewn grym. Fodd bynnag, pe bai'r Myfyriwr Ymatebol am ail-ymuno gyda'r Brifysgol, bydd hynny'n ddibynnol ar y Parti Ymatebol yn ymgysylltu gyda'r ymchwiliad er mwyn sefydlu penderfyniad ynghylch aildderbyn.

2.10 Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried honiad ffurfiol o safbwynt bwlio neu aflonyddu sydd wedi digwydd yn y gorffennol, os yw'r ymddygiad wedi dod i ben mwy na deuddeg wythnos cyn i'r honiad gael ei gyflwyno. Mae'n bosib y bydd y cyfwng amser hwn yn amrywio ym mhresenoldeb tystiolaeth briodol neu ffactorau eraill.

2.11 Bydd Prifysgol Wrecsam yn cadw at y cyfreithiau a'r polisïau perthnasol, gan gymhwyso'r egwyddor o 'debygolrwydd' wrth ddatrys pryderon. Bydd yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i achosion yn cael eu trin yn gyfrinachol, yn unol â rheoliadau gwarchod data.

## 3 Ymchwiliadau'r Heddlu ac Achosion Cyfreithiol

3.1 Er mwyn peidio ag amharu ar unrhyw achosion troseddol, ni fydd y Brifysgol yn dechrau ar ymchwiliad mewnol nac yn gohirio archwiliad sydd eisoes ar waith. Ym mhob achos, bydd y Brifysgol yn ymgymryd â gweithred ragofalus er enghraifft rhoi mesurau ar waith er mwyn gwahanu'r partïon sy'n adrodd a'r rhai sy'n ymateb.

3.2 Bydd adroddiadau dan y weithdrefn hon o ddigwyddiadau honedig yn cael eu hystyried mewn Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (IRM) gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn dewis adrodd am y mater wrth yr Heddlu. Gall IRM hefyd gael ei ohirio wedi i archwiliad troseddol neu achosion cyfreithiol ddod i ben lle mae problemau'n parhau i fod yn aros ac yn gysylltiedig gyda'r myfyriwr sy'n rhan o'r archwiliad.

3.3 Nid yw penderfyniad gan yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron (neu unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall) i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â mater troseddol neu ryddfarn mewn achos llys yn atal y Brifysgol rhag parhau i ymchwilio ac os yw'n briodol, cymryd camau odan y weithdrefn hon. Mae hyn oherwydd bod angen i'r Heddlu a'r CPS angen bodloni Baich Prawf Troseddol (bod y canlyniad 'y tu hwnt i unrhyw amheuaeth') lle mae gofyn i'r Brifysgol fodloni'r Baich Prawf Sifil (y gwneir y canlyniad 'yn ôl yr hyn sy'n debygol'). Mae hyn yn golygu bod y gofyn i Brifysgolion archwilio achosion, hyd yn oed pan gall yr Heddlu fod wedi gorffen archwilio.

3.4 Ym mhob achos, bydd y Brifysgol yn cynghori'r Parti sy'n Adrodd nad oes ganddo bwerau ymchwilio cyfreithlon yr Heddlu ac nid yw'n gallu gwneud penderfyniad o euogfarn droseddol. Mae ymchwiliad mewnol yn canolbwyntio'n unig ar p'un a oes achos o dorri amodau gweithdrefn ymddygiad myfyriwr y Brifysgol (neu unrhyw Bolisi arall, os pennir hynny yn y IRM) wedi digwydd. Gan hynny, nid yw'r broses fewnol yn gallu cael ei hystyried yn amnewid am ymchwiliad yr Heddlu neu erlyniad troseddol.

3.5 Pan mae myfyriwr wedi'i gael yn euog o drosedd neu'n cael rhybudd gan yr Heddlu mewn perthynas ag ymddygiad sy'n disgyn oddi mewn i gwmpas gweithdrefn ymddygiad y Brifysgol, bydd yr euogfarn/rhybudd yn cael ei gymryd fel tystiolaeth gasgliadol, ac ni fydd unrhyw ymchwiliad pellach ei angen gan y Brifysgol.

## 4 Cefnogaeth

4.1 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu cefnogaeth ar gyfer yr aelodau hynny o'i chymuned a effeithir gan y problemau hyn. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ar adnoddau cefnogol sydd ar gael ac yn cynnig mesurau dros dro fel mae'n briodol i'r Parti sy'n Adrodd, y Parti Ymatebol, a'r tystion sy'n gysylltiedig â'r honiadau a wnaed dan gwmpas y weithdrefn hon.

4.2 Mae adnoddau cefnogol ar gael i unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n datgelu digwyddiad waeth beth fo'u dewis i wneud Adroddiad i'r Brifysgol neu'r Heddlu. Mae cefnogaeth yn parhau i fod ar gael waeth beth fo canlyniad yr archwiliad.

4.3 Bydd y Parti sy'n Adrodd a'r Parti Ymatebol a bydd pob un yn cael aelod o staff wedi'u haseinio iddynt er mwyn cynnig cefnogaeth lles a chefnogaeth fugeiliol. Bydd y gefnogaeth hon ar wahân; ni fydd aelod o staff yn darparu cefnogaeth i'r ddau barti. Bydd staff yn y rolau hyn yn cael eu hyfforddi'n benodol i gefnogi'r naill barti neu'r llall yn ystod ac wedi'r ymchwiliad.

## 5 Diogelu

5.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, a gall fod dan rwymedigaeth, er mwyn rhannu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle gall fod yn angenrheidiol i amddiffyn unrhyw unigolyn neu gymuned ehangach y Brifysgol o niwed neu atal trosedd rhag digwydd. Pan mae'r Brifysgol yn derbyn gwybodaeth am ddigwyddiad ac mae penderfyniad yn cael ei wneud i gyfeirio ei gwasanaethau statudol, pryd bynnag mae'n bosib, bydd yr wybodaeth yma'n cael ei chyfathrebu i'r Parti sy'n Adrodd.

## 6 Datganiadau Polisi Cysylltiedig (y mae'r Weithdrefn Ddisgyblu hefyd yn gweithredu)

### 6.1 Datganiad Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio

6.1.1 Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys aflonyddu neu fwlio gan fyfyriwr yn erbyn myfyriwr arall, gan fyfyriwr yn erbyn aelod o staff (neu unigolyn sy'n mynychu'r Brifysgol, megis contractwr, ymwelydd, ymgynghorydd, gweithwyr dros dro neu weithwyr asiantaeth) neu gan aelod o staff yn erbyn myfyriwr. Dim ond myfyrwyr cyfredol sy'n gallu dilyn honiad dan y Weithdrefn hon.

6.1.2 Mae bwlio ac aflonyddu yn cwmpasu ystod o ymddygiadau y tybir eu bod yn dramgwyddus, nad yw'r derbyniwr mo'u heisiau nac yn eu gwerthfawrogi. Gall Bwlio ac Aflonyddu ddigwydd ar achlysur unigol, ond y mae'n llawer mwy tebygol o gael ei ailadrodd dros gyfnod o amser neu ei fod yn gyson. Gall ymddygiad o'r fath fod ar ffurf amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys cyswllt corfforol, geiriol, ysgrifenedig ac electronig.

6.1.3 Nid bwriad y parti sy'n adrodd sy'n allweddol wrth benderfynu os oes aflonyddu neu fwlio wedi digwydd, ond p'un a yw'r ymddygiad yn annerbyniol dan safonau rhesymol arferol ac nad yw'n cael ei groesawu a'i fod yn peri gofid i'r unigolyn/unigolion sy'n ddarostyngedig iddo.

6.1.4 Am wybodaeth bellach, gweler y Datganiad Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio.

### 6.2 Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer

6.2.1 Mae Addasrwydd i Ymarfer yn cyfeirio at allu'r myfyriwr i fodloni safonau proffesiynol, mae'n ymwneud â chymeriad, cymhwysedd proffesiynol ac iechyd. Nod y broses yw sicrhau diogelwch myfyrwyr, y rhai sydd o'u hamgylch, a'r cyhoedd, tra hefyd yn ategu neu'n cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae'r weithdrefn yn gefnogol o ran natur, gan ffocysu ar fynd i'r afael â phryderon heb gosbi myfyrwyr, hyd yn oed pan mae'n arwain at fyfyriwr beidio â bod yn gallu parhau gyda'u hastudiaethau neu raddio heb gydnabyddiaeth gan gorff proffesiynol.

6.2.2 Mae gan ddarparwyr ddyletswydd i:

- Sicrhau bod myfyrwyr mewn rhaglenni proffesiynol yn addas i ymarfer, neu y byddant yn addas wedi iddynt gwblhau eu cwrs.
- Amddiffyn cleifion, cleientiaid, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd.
- Ategu / Cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn.
- Cydymffurfio gyda gofynion proffesiynol a chyrff rheoleiddio.
- Sicrhau nad yw myfyrwyr yn derbyn cymhwyster sy'n eu galluogi i ymarfer os nad ydynt yn addas i wneud hynny.

6.2.3 Mae'r broses yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch ymddygiad myfyriwr, ymarfer proffesiynol, neu iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl, a allai effeithio ar eu Haddasrwydd i Ymarfer. Gall pryderon gael eu datrys yn anffurfiol neu drwy weithdrefnau mwy ffurfiol yn dibynnu ar yr achos. Mae'r weithdrefn ar wahân i'r prosesau disgyblu, a gellir chwilio am gyngor gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (ac adrannau eraill fel ag y mae'n briodol) er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn.

6.2.4 Mae'r polisi'n anelu i ddarparu tegwch, cysondeb a thryloywder tra'n ystyried cynnydd academaidd ac ymddygiad proffesiynol fel elfennau sy'n hanfodol i allu myfyriwr i ymarfer yn eu dewis faes.

6.2.5 Mae Prifysgol Wrecsam yn cynnig amrywiaeth o raglenni datblygiad proffesiynol parhaus a fwriadwyd ar gyfer ymarferwyr cyfredol. Ar gyfer y rhaglenni hyn, ni ellir rhoi'r Weithdrefn Ymarfer ar waith er mwyn atal myfyriwr rhag ymarfer, gan eu bod eisoes yn cymryd rhan mewn ymarfer. Yn hytrach, fe'u defnyddir er mwyn symbylu'r gyfres hon o weithredoedd:

- Os yw'r myfyriwr sy'n ymarferwr cyfredol yn cael ei wahardd neu ei dynnu'n ôl tra mae honiad dan y weithdrefn hon ar waith, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn penderfynu p'un ai i fwrw ymlaen gydag ymchwilio i'r honiadau.
- Lle mae canlyniad o Wrandawiad yn canfod bod myfyriwr wedi arddangos ymddygiad sy'n amhriodol neu'n annerbyniol i safonau'r proffesiwn, yna bydd cam gweithredu sy'n agored i'r gwrandawiad yn cynnwys hysbysu cyflogwr/darparwr lleoliad y myfyrwyr a hefyd y PSRB perthnasol o ffeithiau'r mater a chanlyniad y gwrandawiad.
- Gweithred bellach sy'n agored i banel y gwrandawiad yw dirwyn astudiaethau'r myfyriwr i ben gyda Phrifysgol Wrecsam.

### 6.3 Datganiad Polisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin yn y Cartref

6.3.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd diogel, parchus a chynhwysol i holl aelodau ei chymuned. Rydym yn mabwysiadu polisi dim goddefgarwch tuag at bob ffurf o gamymddwyn rhywiol a cham-drin yn y cartref.

6.3.2 Rydym yn cydnabod yr effaith ddifrifol y gall profiadau o'r fath ei gael ar unigolion ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu cefnogaeth sy'n wybodus ynghylch trawma ac sy'n cael ei arwain gan rai sydd wedi trawma. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyfrinachol, cefnogaeth emosiynol, a gwybodaeth eglur ynghylch barnau adrodd sydd ar gael - a hynny oddi mewn i'r Brifysgol ac yn allanol.

6.3.3 Gall datgeliadau gael eu gwneud gan fyfyrwyr neu staff heb unrhyw rwymedigaeth i ymgymryd â chamau gweithredu ffurfiol. Fodd bynnag, lle mae pryder ynghylch diogelu yn bodoli, mae'n bosib y bydd y Brifysgol angen gweithredu er mwyn amddiffyn unigolion neu'r gymuned ehangach, yn unol gyda'i ddyletswydd gofal.

6.3.4 Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod yr holl adroddiadau'n cael eu trin yn sensitif, yn deg ac yn gyfrinachol. Byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad gyda thimau mewnol ac asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth berthnasol a gweithredu lle mae'n angenrheidiol. Bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn ymateb yn effeithiol.

6.3.5 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol, ar draws pob lleoliad - gan gynnwys gofodau ar-lein ac mae wedi'i alinio gyda deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Deddf Cam-drin Domestig 2021, a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gweithdrefn staff yn ei lle ar gyfer Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin Domestig ac mae polisi trosfwaol ar gael sy'n amlinellu disgwyliadau'r Brifysgol mewn perthynas â'r maes hwn.

6.3.6 Am ragor o wybodaeth, gweler y Polisi SMDA.

## 7 Cod Ymddygiad

7.1 Disgwylir i fyfyrwyr y Brifysgol fod yn cadw at y Cod Ymddygiad canlynol. Dylent bob amser ymddwyn mewn ffordd sy'n arddangos parch tuag at y gymuned ehangach, y Brifysgol, ei staff, myfyrwyr eraill ac eiddo.

7.2 Mae'r canlynol yn rhestr o ymddygiadau sydd wedi'u gwahardd. Ni fwriedir y rhestr i fod yn hollgynhwysfawr, a gellir mynd i'r afael ag ymddygiadau eraill ar ddisgresiwn y Brifysgol:

- Ymddwyn mewn modd sy'n beryglus neu sy'n debygol o arwain at dorri'r heddwch neu ddifrod i eiddo.
- Tarfu ar neu ymyrryd yn amhriodol â gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon, cymdeithasol neu weithgareddau eraill y Brifysgol.
- Atal, neu ymyrryd mewn modd amhriodol gyda ffwythiannau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr, aelod o staff neu ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol.

- Ymddygiad neu iaith dreisgar, anweddus, anhrefnus, bygythiol neu sarhaus mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.
- Rhannu neu gyhoeddi poster, rhybudd, arwydd, cyhoeddiad neu unrhyw ddeunydd sy'n fygythiol, yn dreisgar, yn ddifenwol, yn anllad, yn dramgwyddus neu sy'n cyfateb i aflonyddu neu sy'n anghyfreithlon neu sy'n gwneud i eraill ofni trais.
- Twyll, ystryw, twyllo, cam gynrychiolaeth, llwgrwobrwyaeth, ffugio cofnodion neu anonestrwydd mewn perthynas â'r Brifysgol, ei staff neu ei myfyrwyr, gan gynnwys camddefnyddio'r system o fonitro presenoldeb.
- Gwneud honiadau difenwol a/neu honiadau ffug ynghylch myfyrwyr neu staff eraill sydd yn ddi-sail a lle mae lle i gredu eu bod yn faleisus neu'n flinderus.
- Gweithred sy'n debygol o achosi niwed neu amharu ar ddiogelwch ar eiddo'r Brifysgol neu tra ar leoliad, gan gynnwys ymyrryd gydag offer diogelwch tân a cham-ddefnyddio alcohol/cyffuriau
- Ysmygu, gan gynnwys defnyddio e-sigarennau, y tu mewn i adeiladau'r Brifysgol neu ardaloedd eraill a waherddir gan y Brifysgol.
- Aflonyddu ar unrhyw fyfyriwr, aelod o staff, unrhyw drydydd parti tra ar leoliad neu unrhyw ymwelydd â'r Brifysgol - fel y'i diffinnir yn Natganiad Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio'r Brifysgol.
- Camymddwyn rhywiol gan gynnwys unrhyw ymddygiad neu ymgais ar ymddygiad o natur rywiol, fel y'i diffinnir gan Bolisi Camymddwyn Rhywiol a Pholisi Cam-drin Domestig yn Adran 6.
- Camymddwyn rhywiol gan gynnwys unrhyw ymddygiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, bygwth yn gymhellol, ymddygiad diraddiol, trais, neu gam-drin, fel y'i diffinnir gan Bolisi Camymddwyn Rhywiol a Pholisi Cam-drin Domestig yn Adran 7.
- Torri'r darpariaethau a gynhwysir o fewn unrhyw un o reoliadau, rheolau, gweithdrefnau neu bolisïau, gan gynnwys methu â chydymffurfio gyda chanlyniadau unrhyw weithrediadau.
- Troseddau asesu sydd heb eu cynnwys o fewn y Weithdrefn Camymddwyn Academaidd a allai gynnwys lladrata, ffugio, dynwared, llwgrwobrwyo, hysbysebu neu gysylltu gyda gwasanaethau sy'n hyrwyddo anonestrwydd academaidd.
- Difrodi, difwyno, neu gamddefnyddio eiddo'r Brifysgol neu eiddo aelodau eraill o aelodau eraill o'r Brifysgol yn fwriadol, wedi'i achosi'n fwriadol neu'n ddi-hid.
- Camddefnyddio neu ddefnydd anawdurdodedig o eiddo'r Brifysgol neu eitemau o eiddo, gan gynnwys camddefnyddio cyfrifiaduron.
- Datgelu'n fwriadol wybodaeth breintiedig a chyfrinachol i bobl anawdurdodedig; methu â chadw at hawliau eiddo deallusol/neu dorri hawlfraint.
- Lle mae euogfarn wedi ei roi am drosedd a lle mae'r ymddygiad hwnnw wedi: a. digwydd ar eiddo'r Brifysgol; neu b. sydd wedi effeithio ar unrhyw fyfyriwr, aelod o staff neu asiant o'r Brifysgol; neu c. niwed neu a allai niweidio enw da'r Brifysgol; neu d. sy'n peri i'r

myfyriwr fod yn anaddas i ymarfer unrhyw broffesiwn penodol neu alwedigaeth y mae cwrs y myfyriwr yn ei arwain ati'n uniongyrchol; neu e. sy'n codi cwestiynau ynghylch addasrwydd myfyriwr ar gyfer cwrs arbennig neu p'un a ddylai myfyriwr barhau i fod yn aelod o gymuned y Brifysgol oherwydd eu bod yn achosi risg i eraill neu i drefn dda'r Brifysgol.

- Methu â datgan euogfarn droseddol berthnasol a ddigwyddodd pan roeddent wedi ymrestru fel myfyriwr.
- Ymddygiad sy'n dwyn anfri neu a allai ddwyn anfri ar y Brifysgol, waeth ble digwyddodd yr ymddygiad, gan gynnwys ymddygiad sy'n niweidio neu a allai niweidio perthynas neu enw da y Brifysgol gyda chymunedau lleol neu sefydliadau allanol.
- Methu â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd rhesymol unrhyw aelod o staff y Brifysgol, gan gynnwys methu â datgelu manylion adnabod personol neu gof â cherdyn Adnabod y Brifysgol tra ar y campws neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd y Brifysgol.
- Mynd i rannau o eiddo'r Brifysgol nad ydynt yn agored ar gyfer gweithgaredd academaidd neu weithgaredd myfyrwyr, oni bai y gwahoddir hwy i wneud hynny gan aelod awdurdodedig o staff y Brifysgol.
- Ymgymryd ag unrhyw fasnachu, busnes neu gyflogaeth ar eiddo'r Brifysgol, heb ganiatâd penodol y Brifysgol.
- Ymddygiad sy'n peri bod myfyriwr sydd wedi ymrestru ar gwrs sy'n arwain yn uniongyrchol at gymhwyster proffesiynol neu at yr hawl i ymarfer proffesiwn penodol, ddim yn addas i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw nac i'w ymarfer.
- Gwneud neu gyhoeddi recordiad o aelod o staff y Brifysgol yn sgil eu dyletswyddau heb gael caniatâd penodol.
- Ymddygiad a fwriedir i gymell neu ddenu, cynorthwyo neu helpu ac ategu myfyriwr arall neu sydd ag effaith o wneud hynny ac sy'n torri unrhyw un o reoliadau, rheolau, gweithdrefnau neu bolisïau'r Brifysgol.
- Unrhyw doriad yn nhelerau unrhyw fisa neu fethiant i gydymffurfio gyda gofynion Fisa a Mewnfudo'r DU (UKVI).

## 8 Gweithdrefn Ddisgyblu

8.1 Bydd y Brifysgol yn darparu fframwaith y gellir archwilio honiadau oddi mewn iddi a'u datrys cyn belled ag y bo cefnogaeth ar gyfer y myfyriwr sy'n mynegi'r pryder (y Parti sy'n Adrodd) a'r person y gwneir yr honiad yn ei erbyn (Parti Ymatebol).

8.2 Wrth dderbyn honiad gan y Parti sy'n Adrodd, gwneir cais am ddatganiad ysgrifenedig o'r honiad gan y Brifysgol. Os oes gan fyfyriwr anghenion cefnogi sy'n ei gwneud hi'n angenrheidiol i fformatau amgen o gyflwyno gael eu defnyddio, yna caiff hynny ei hwyluso. Dylid anfon ffurflenni at StudentConduct@Wrexham.ac.uk yn y lle cyntaf.

8.3 Nodwch os gwelwch yn dda, na ellir fel arfer ymchwilio i adroddiadau dienw, neu adroddiad lle nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn dymuno i gynnwys yr honiadau gael eu rhannu gyda'r Parti Ymatebol.

8.4 Bydd y Pennaeth Ansawdd neu'r person enwebedig yn penderfynu:

- P'un a ddylai'r honiad gael ei gyfeirio er mwyn iddo gael ei ddelio ag o drwy Gam Un y weithdrefn Anffurfiol (os nad yw wedi ei gyfeirio drwy'r llwybr hwnnw).
- P'un a yw'r honiad yn wamal neu'n flinderus ac y dylai gael ei ddiystyru.
- P'un a ddylai'r honiad gael ei gyfeirio i'w ystyried dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer; y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio neu gael ei drin dan y weithdrefn hon.
- P'un a oes angen Cyfarfod Adolygu Cychwynnol.

8.5 Lle mae'r drosedd yn fater troseddol a bod yr heddlu, y llys neu asiantaethau statudol allanol eraill (ESA) yn gysylltiedig, mae'n bosib na fydd ymchwiliad y Brifysgol ond yn golygu asesiad risg o p'un a oes angen gwaharddiad yn ddibynnol ar weithdrefnau ESA. Ni ymgymerir ag archwiliad pellach gan y Brifysgol heb gysylltu'n gyntaf gyda'r ESA perthnasol. Bydd y myfyriwr, fodd bynnag, yn cael ei wneud yn ymwybodol o fwriad Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol ac yn cael eu darparu gyda chopi o'r weithdrefn, ond mae'n bosib y bydd ymchwiliad llawn y Brifysgol yn cael ei ohirio hyd nes y bydd canlyniad yr ymchwiliad swyddogol gan yr ESA yn hysbys.

## 9 Proses Mesurau Rhagofalus

### 9.1 Datgeliadau ac Adroddiadau

9.1.1 Bydd y broses Ddisgyblu'n dechrau pan mae digwyddiad yn cael ei adrodd amdano gan unigolyn neu drydydd parti. Nid yw datgeliad gyfystyr ag adroddiad, ond yn y ddau achos, cynghorir bod cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiadau, ynghyd â dyddiadau, amseroedd ac enwau unrhyw dystion yn cael eu cadw.

9.1.2 Gellir gwneud datgeliad anffurfiol ynghylch unrhyw ffurf ar gamymddwyn (ar gyfer cyngor cyfrinachol /atgyfeiriad ar gyfer cefnogaeth), mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drwy Ddeon y Gyfadran, Gwasanaethau Myfyrwyr, tiwtor personol myfyriwr neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyriwr. Rhaid i aelodau o staff sy'n derbyn datgeliad o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig gyfeirio myfyrwyr at yr adran Bywyd Myfyriwr a Champws. Bydd myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth a gwybodaeth am y camau nesaf sydd ar gael iddynt, heb unrhyw bwysau ar i'r myfyriwr wneud adroddiad ffurfiol.

9.1.3 Yn dilyn cyngor ac arweiniad, mae'n bosib y bydd yr unigolyn yn dymuno gwneud adroddiad ffurfiol i'r Brifysgol i'w ystyried dan y weithdrefn briodol.

9.1.4 Mae ffurflenni er mwyn cyflwyno adroddiadau ffurfiol o gamymddwyn ar gael o StudentConduct@wrexham.ac.uk.

9.1.5 Mae'r penderfyniad ynghylch ar ba Gam yr ymatebir i'r honiadau o fewn yr adroddiad ar ddisgresiwn y Rheolwr Ansawdd. Ar unrhyw adeg, pe bai gan y Rheolwr Ansawdd bryder pellach ynghylch priodoldeb Cam, gallant gyfeirio ymlaen i'r cam nesaf.

9.1.6 Yn achos gofyn am ymchwiliad ffurfiol, dylid dilyn y camau sydd wedi'u hamlinellu o fewn cam ffurfiol y weithdrefn hon a'r Llawlyfr Canllawiau Ymchwiliad.

9.1.7 Fel egwyddor gyffredinol, mae'r penderfyniad p'un ai i symud ymlaen gyda'r datgeliad yn ddibynnol ar yr unigolyn (y parti sy'n Adrodd). Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol ddyletswydd i amddiffyn pob un o'i staff a myfyrwyr a gallant ddilyn y mater yn annibynnol, lle mae'r Brifysgol yn ystyried ei bod yn briodol i wneud hynny.

9.1.8 Os yw aelod o staff sy'n derbyn datgeliad o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig sy'n ymwneud â myfyriwr, dylid hysbysu Bywyd Myfyriwr a Champws. Bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig i'r parti sy'n Adrodd a'r parti Ymatebol, os yw'r ddau ohonynt yn fyfyrwyr. Os nad yw'r Parti sy'n Adrodd am i'w gwybodaeth gael ei rhannu gyda gwasanaethau cefnogi, yna dylai staff barhau i geisio cael cefnogaeth gan Bywyd Myfyriwr a Champws, heb rannu manylion y myfyriwr, fel bod yna drosolwg sefydliadol o sefyllfa'r myfyriwr. Nid yw hysbysu'r adran Bywyd Myfyriwr a Champws o honiad o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn rhoi cychwyn ar ymchwiliad ffurfiol ond bydd cefnogaeth lawn yn cael ei chynnig i'r Myfyriwr Ymatebol ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys adroddiad ffurfiol i'r Brifysgol lle mae'n briodol.

9.1.9 Os yw'r Parti Ymatebol yn aelod o staff dylid cysylltu gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol a'i hysbysu o'r honiad.

9.1.10 Bydd y Brifysgol yn penderfynu os oes angen am Gyfarfod Adolygu Cychwynnol. Bydd hyn yn digwydd lle mae'r Brifysgol angen ystyried y risg ar gyfer unrhyw un o'r partïon neu Gymuned ehangach y Brifysgol. Bydd Cyfarfod Adolygu Cychwynnol hefyd yn ystyried os yw'r trothwy'n cael ei fodloni ar gyfer cyfeirio at wasanaethau statudol oddi allan i'r Brifysgol neu gysylltu â hwy.

**9.2 Cyfarfod Adolygu Cychwynnol**

9.2.1 Unwaith mae'r DSpSA (neu aelod hŷn priodol arall o staff) wedi pennu y dylai fod Cyfarfod Adolygu Cychwynnol, bydd y Tîm Ansawdd a Rheoliadau yn dod i gysylltiad gyda phartïon priodol er mwyn trefnu Cyfarfod Adolygiad Cychwynnol (IRM) cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosib. Diben y Cyfarfod Adolygiad Cychwynnol yw:

- Asesu anghenion cefnogi.
- Ystyried sut i amddiffyn buddiannau'r holl bartïon ac aelodau o gymuned y Brifysgol a allai gael eu heffeithio gan yr achos.
- Ymgymryd ag asesiad risg er mwyn pennu p'un a oes angen rhoi unrhyw fesurau rhagofalus yn eu lle.

- Sicrhau bod ymchwiliad llawn a phriodol yn gallu cael ei gynnal.
- Cytuno ar y camau nesaf.
- Pennu p'un a fydd ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal, neu a ddylai'r mater gael ei drin dan weithdrefn neu gam ar wahân.

9.2.2 Mynychir yr IRM gan y canlynol lle mae'n berthnasol:

- Y Cadeirydd (aelod hŷn o staff enwebedig) DS Arweinydd neu ddirprwy SVO yn achos honiad SMDA.
- Cynrychiolydd o'r adran gyfreithiol.
- Cynrychiolydd o dîm y Rhaglen.
- Cynrychiolydd o'r Tîm Ansawdd a Rheoleiddio.
- Aelod o'r tîm Bywyd Myfyriwr a Champws (a lle mae'n berthnasol, gynrychiolydd o'r Tîm Preswylfeydd).

9.2.3 Yn dibynnu ar natur yr honiad mae'n bosib y gwaherddir astudiaethau'r myfyriwr am gyfnod o hyd at 28 diwrnod hyd nes i'r honiad gael ei ymchwilio. Er mwyn atal astudiaethau myfyriwr rhaid ceisio cymeradwyaeth gan y Deon Cysylltiedig perthnasol a'r DSPA. Bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu yn y lle cyntaf drwy alwad ffôn, lle mae'n bosib, gydag e-bost i ddilyn yn syth. Gellir gwneud y penderfyniad ynghylch ataliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymchwilio, wrth i dystiolaeth newydd gael ei chasglu.

9.2.4 Bydd unrhyw fyfyriwr a waherddir yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan wasanaethau'r Brifysgol lle bynnag y bo'n bosib, er y gall hyn fod drwy gyfrwng cyfyngedig (e.e. drwy Teams / e-byst). Mae hyn un ddibynnol ar fod y myfyriwr yn ymddwyn mewn ffordd briodol o fewn y cyd-destun hwn. Mae'n bosib y bydd achosion prin lle nad yw'n briodol i'r Brifysgol barhau i ddarparu cefnogaeth ac mewn achosion o'r fath gwneir ymdrech i gyfeirio'r myfyriwr at wasanaethau cefnogi allanol.

9.2.5 Nid bwriad y person sy'n adrodd sy'n allweddol wrth benderfynu os oes aflonyddu neu fwlio wedi digwydd, ond p'un a yw'r ymddygiad yn annerbyniol yn ôl safonau rhesymol arferol ac nad yw'n cael ei groesawu a'i fod yn peri gofid i'r unigolyn/unigolion sy'n ddarostyngedig iddo.

9.2.6 Os yw'r IRM yn pennu y bydd ymchwiliad Cam 2 ffurfiol yn cael ei gynnal, bydd ymchwiliwr annibynnol, sydd wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei benodi. Byddant yn cael eu cefnogi gan aelod o'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau. Bydd yr ymchwiliwr yn ceisio:

- Casglu tystiolaeth ynghylch p'un ai a oes tor-gweithdrefn ymddygiad myfyrwyr wedi digwydd.
- Darparu pob parti gyda chyfle llawn a theg i egluro neu gyflwyno eu hochr hwy ynghylch yr hyn ddigwyddodd.

**9.3 Gweithdrefn Gwaharddiad Rhagofalus Brys**

9.3.1 Gweler y Weithdrefn Gwaharddiad Brys

## 10 Cam Anffurfiol (Cam 1)

### 10.1 Sut fydd Cam 1 (cam anffurfiol) yn mynd yn ei flaen

10.1.1 Yn achos adroddiadau a wneir sy'n cael eu delio â hwy gan y Polisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin Domestig, bydd archwiliad yn symud yn ei flaen yn uniongyrchol i gam ffurfiol Cam 2.

10.1.2 Fel arfer, bydd y Cam Anffurfiol yn cael ei symud ymlaen gan yr aelodau canlynol o staff, sydd wedi'u hawdurdodi i ddelio gyda materion camymddwyn o fewn maes eu cyfrifoldeb dan weithdrefn Cam Un (y cyfeirir ato wedi hynny fel personau awdurdodedig):

- Deoniaid Cyfadrannau, Deoniaid Cyswllt Adrannau neu staff sydd yn ddigon uchel, wedi'u henwebu gan Ddeoniaid.
- Pennaeth Rheolaeth Ystadau a Champws.
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.
- Rheolwr Preswylwyr a Bywyd Campws.
- Rheolwr Cefnogi Myfyrwyr.

*Rhaid i'r person awdurdodedig beidio â bod wedi bod yn rhan o'r honiad neu'n dyst iddo.*

10.1.3 Mae gan y Myfyriwr sy'n Adrodd a'r Myfyriwr Ymatebol yr hawl i ddod â pherson cefnogi priodol gyda hwy i unrhyw gyfarfod. Gallai hyn fod yn ffrind, yn aelod o'r teulu neu'n aelod o'r Tîm Cynghori Undeb y Myfyrwyr. D.S. Rhaid i fyfyrwyr beidio dod â thystion fel person cefnogi.

10.1.4 Bydd y person a benodir a'r sawl sy'n cymryd nodiadau, yn cyfarfod gyda'r myfyriwr sy'n Adrodd (gan sicrhau bod y nodiadau'n cael eu cadw a'u rhannu gyda'r Parti sy'n Adrodd) er mwyn sefydlu:

- Y digwyddiadau honedig a'r pryderon.
- Hunaniaeth y Myfyriwr Ymatebol ac unrhyw dystion.
- Beth fydd canlyniad dymunol y Myfyriwr sy'n Adrodd.

10.1.5 Cyn belled ag y bo'r Myfyriwr sy'n Adrodd yn fodlon* bod y mater yn cael ei ddelio ag o yn anffurfiol bydd y person a benodwyd a'r sawl sy'n cymryd nodiadau wedyn yn cyfarfod gyda'r Myfyriwr sy'n Adrodd (gan sicrhau bod y nodiadau'n cael eu cadw a'u rhannu gyda'r Parti sy'n Adrodd) er mwyn rhoi:

- Eglurhad o pam mae'r ymddygiad honedig yn torri'r Rheoliadau.
- Eglurhad o'r dystiolaeth / cyfrifon a dderbyniwyd; gallai hyn gynnwys copi sydd wedi'i ailadolygu o ddatganiad y Myfyriwr sy'n Adrodd.
- Fersiwn y Myfyriwr Ymatebol o'r digwyddiadau honedig a'r pryderon.

*Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib y bydd y person a benodwyd yn pennu ei bod yn anaddas i ddilyn yr honiadau i fyny ar gam ffurfiol, er enghraifft mewn amgylchiadau lle mae diffyg

tystiolaeth sylweddol a thebygolrwydd bod un o'r canlyniadau a nodwyd uchod fel bod yn briodol ar gyfer cam anffurfiol. Yn yr achos hwn, bydd y parti sy'n Adrodd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig (drwy e-bost neu lythyr) o'r rheswm dros y penderfyniad hwn a manylion cyfyngedig y canlyniad dan y weithdrefn anffurfiol.

DS, os ar unrhyw adeg, y daw'n eglur bod yr honiad yn fwy difrifol, bydd y swyddog penodedig yn gallu cyfeirio hyn at y camau ffurfiol (Cam 2) o'r weithdrefn.

10.1.6 Os yw'r honiad yn cael ei brofi, bydd y person penodedig yn rhoi arweiniad i'r Myfyriwr Ymatebol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol a bydd yn gofyn am un o'r canlyniadau a nodwyd yn eitemau a-n o'r tabl Cosbau yn Adran 12 o'r weithdrefn hon.

10.1.7 Os yw'r Parti Ymatebol neu sy'n Adrodd yn dymuno apelio ar y cam hwn, bydd yr apêl yn cynnwys ymchwiliad llawn dan gam 2 o'r weithdrefn hon.

10.1.8 Bydd y sail ar gyfer symud ymlaen i Gam 2 ymchwiliad llawn fel apêl fel a ganlyn:

- Na fu i'r gweithdrefnau gael eu dilyn yn gywir.
- Bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi dod i benderfyniad afresymol.
- Bod gan y myfyriwr dystiolaeth ymarferol newydd nad oeddent, am resymau dilys, yn gallu eu darparu yn gynt yn y broses.
- Bod yna ragfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn.
- Bod y gosb a roddwyd yn anghymesur neu heb ei chaniatáu dan y gweithdrefnau.

## 11 Cam Ffurfiol (Cam 2)

11.1 Lle penderfynir symud ymlaen gyda'r weithdrefn ddisgyblu ffurfiol, bydd Pennaeth Ansawdd (neu berson enwebedig) yn penodi aelod o staff academaidd neu staff gweithredol (Swyddog Ymchwilio) i ymchwilio'r achos ac i gyflwyno canfyddiadau'r achos i wrandawiad y Panel Disgyblu. Mae'n bosib y bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penderfynu ymgymryd â'r rôl hon yn bersonol.

11.2 Gwneir pob ymdrech i ddiogelu sefyllfa academaidd y myfyriwr yn dilyn canlyniad gwrandawiad y Panel Disgyblu

### 11.3 Cam Ffurfiol (Cam 2): Yr Ymchwiliad

11.3.1 Bydd ymchwiliad fel arfer yn dechrau o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod IRM. Ar ddechrau'r archwiliad bydd y Parti sy'n Adrodd a'r Parti Ymatebol yn cael eu hysbysu na ddylent ddod i gysylltiad gyda'i gilydd yn ystod yr ymchwiliad oni bai y cyfarwyddir hwy i wneud hynny gan yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr.

11.3.2 Bydd y broses archwilio yn cynnwys cyfarfodydd er mwyn coladu tystiolaeth gyda'r Parti sy'n Adrodd, Parti Ymatebol, tystion ac unigolyn/unigolion mae'r ymchwilydd/ymchwilwyr yn adnabod eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad. Yn ystod pob cyfarfod:

- Bydd y weithdrefn yn cael ei hegluro.
- Bydd manylion am yr honiad ac unrhyw dystiolaeth gefnogol sydd ar gael yn cael eu cadarnhau.
- Rhoddir cyfle llawn a theg i bartïon egluro neu gyflwyno eu hochr hwy o'r hyn ddigwyddodd.
- Bydd nodiadau'n cael eu cymryd a'u rhannu ar gyfer eu cymeradwyo/sylwadau gyda phob parti sy'n mynychu.

11.3.3 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal ymchwiliad o'r honiad a bydd yn ceisio cwblhau'r ymchwiliad o fewn 20 diwrnod gwaith i'w penodiad yn Swyddog Ymchwilio. Lle nad yw'r amserlen yn ddichonadwy, bydd y Swyddog Ymchwilio yn hysbysu'r Rheolwr Ansawdd, fydd yn diweddaru pob parti ynghylch y cynnydd a wnaed gyda'r ymchwiliad.

11.3.4 Bydd y Swyddog Ymchwilio a benodir i ymchwilio'r achos yn ceisio sefydlu'r ffeithiau sy'n gysylltiedig gyda'r honiadau o gamymddwyn yn syth, cyn i bobl anghofio beth ddigwyddodd. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ceisio cyfweld, ac os yw'n angenrheidiol, ail-gyfweld bob person y maent yn credu, ar sail resymol, sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r honiad o gamymddwyn. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyfweld y myfyriwr y gwneir yr honiad yn ei erbyn. Mewn unrhyw gyfarfod sy'n rhan o'r Weithdrefn hon, mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni myfyriwr arall, cyfaill, perthynas, aelod o staff y Brifysgol (neu o goleg/sefydliad Partner), cynghorydd Undeb Myfyriwr neu unrhyw berson sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion unigol e.e. gofalwr, arwyddwr.

11.3.5 Ble bynnag y mae'n ymarferol, dylai'r holl ddarpar dystion a'r myfyriwr gael eu cyfweld gan y Swyddog Ymchwilio gyda pherson annibynnol yn bresennol. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn gyfrifol am gymryd nodiadau manwl o'r cyfweliad a thrawsgrifio'r nodiadau hynny yn ddatganiad y bydd gan y tyst gyfle i'w hadolygu cyn llofnodi fel sicrwydd nad ydynt yn cael eu camgynrychioli yn y datganiad. Lle mae tyst neu'r myfyriwr sy'n destun achos disgyblu yn analluog am reswm da i gyfarfod gyda'r Swyddog Ymchwilio, o fewn amserlen resymol, gall y tyst neu'r myfyriwr gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Ymchwilio a allai gyfeirio at y datganiad yn eu hadroddiad.

11.3.6 Ym mhob cyfarfod ymchwiliol, cymerir nodiadau, a gofynnir i'r sawl sy'n cael ei gyfweld gadarnhau ei fod yn grynodeb manwl gywir o'r penderfyniad. Bydd copïau o'r nodiadau, ynghyd ag unrhyw sylwadau, yn cael eu cadw gan y sawl sy'n cael ei gyfweld a'r Ymchwilydd/Ymchwilwyr; ni fydd y nodiadau hyn yn cael eu rhannu gyda phartïon eraill, oni bai am y Myfyriwr Ymatebol, fel tystiolaeth sydd wedi'i ailadolygu'n briodol, oni bai y rhoddir caniatâd i'r Tîm Ansawdd a Rheoli i wneud fel arall. Mae gan fyfyrwyr a staff yr opsiwn i wneud cais am gael sain y cyfarfod wedi'i recordio.

11.3.7 Bydd gofyn i'r holl bartïon sy'n rhan o'r ymchwilid hefyd gyflwyno unrhyw dystiolaeth berthnasol ar adeg yr ymchwiliad. Bydd yr holl dystiolaeth a gyflwynir yn cael ei rhannu gyda'r Ymchwilydd/Ymchwilwyr, y Parti sy'n Adrodd ac unrhyw Barti Ymatebol. Mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer, bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth gan y darparwr lleoliad

11.3.8 Gall y Parti sy'n Adrodd a'r Parti Ymatebol adnabod tystion i'r Ymchwilydd/Ymchwilwyr er mwyn cysylltu. Bydd gofyn i dystion gadw manylion yr ymchwiliad yn gyfrinachol. Bydd gofyn i dystion (sydd ym mhob achos yn fodlon) gyflwyno datganiad ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad ac mae'n bosib y gofynnir iddynt fynychu cyfarfod ymchwilio ar ddisgresiwn yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr. Bydd datganiadau'r tystion yn cael eu darparu i'r Partïon sy'n Adrodd a'r rhai Ymatebol. Fel arfer ni ddarperir unrhyw ddeunydd o'r ymchwiliad i'r tystion.

11.3.9 Bydd pob un sy'n rhan o'r broses ymchwilio yr hawl i fynychu cyfarfodydd gyda chwmni er mwyn cael cefnogaeth gan aelod o gymuned y Brifysgol megis aelod o staff, cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr neu gyd-fyfyriwr. Y mae ar ddisgresiwn y Brifysgol p'un a ganiateir i'r sawl sy'n gwmni i'r myfyriwr siarad yn y cyfarfod.

11.3.10 Bydd yr ymchwilydd/ymchwilwyr yn gweithredu'n syth ac yn dringar, gan gadw at lefelau priodol o gyfrinachedd bob amser. Bydd yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr yn cymryd mesurau priodol er mwyn darparu amgylchedd diogel, cyfforddus a chefnogol er mwyn trafod yr Adroddiad gyda'r Parti sy'n Adrodd, y Parti Ymatebol ac unrhyw dystion yn ystod cyfarfodydd yr ymchwiliad. Gall yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr gysylltu gyda phartïon allanol er mwyn dod o hyd i gyngor arbenigol yn ôl y gofyn tra'n cynnal cyfrinachedd. Lle mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel rhan o ymchwiliad bydd pob parti yn cael eu darparu gyda chyfleoedd i gael egwyl.

### 11.4 Canfyddiadau'r ymchwiliad

11.4.1 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn paratoi adroddiad yn manylu ar yr honiadau yn erbyn y myfyriwr gan gyfeirio at y Weithdrefn hon ac yn amlinellu'r dystiolaeth ynghylch yr ymchwiliad, a bydd copi ohoni'n cael ei darparu i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Bydd yr adroddiad yn cynnwys copïau o ddatganiadau tystion (neu mewn rhai amgylchiadau fel amlinelliad o dystiolaeth gan dyst) a thystiolaeth ddogfennol arall. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddarparu i'r myfyriwr fel rhan o'r ddogfennaeth i'w hystyried gan y Panel.

11.4.2 Yn dilyn cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio'n cynhyrchu adroddiad o'u canfyddiadau ar gyfer eu hatgyfeirio at y person /corff priodol i'w hystyried ar gyfer y gosb os yw'n briodol.

11.4.3 Bydd y Parti Ymatebol yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r weithdrefn a ddilynir a bydd copi o'r adroddiad gwreiddiol yn cael ei gyflwyno, gan amlinellu'r honiadau a wneir yn eu herbyn ac unrhyw ddogfennaeth gefnogol ychwanegol a gyflwynir gan y Parti sy'n Adrodd. Bydd hyn yn cael ei dderbyn gan isafswm o 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Y cam nesaf i'r Parti Ymatebol yw cyflwyno ymateb ysgrifenedig mewn ymateb i'r ddogfennaeth a ddarparwyd. Bydd cyfarfod rhwng y Parti Ymatebol a'r Ymchwilydd/Ymchwilwyr yn cael ei drefnu ac mae angen ymateb ysgrifenedig ddau ddiwrnod gwaith cyn cyfarfod yr ymchwiliad.

11.4.4 Y tebygolrwydd yw y bydd yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr yn pennu p'un a yw'r dystiolaeth ar gael yn dynodi bod amodau'r weithdrefn wedi'u torri. Bydd hyn yn pennu p'un ai:

- A yw'r dystiolaeth yn cefnogi torri'r polisi/weithdrefn sy'n golygu nad yw'r honiad yn cael ei gynnal.

- Bod y dystiolaeth yn dynodi torri'r polisi/gweithdrefn sy'n golygu bod yr honiad yn cael ei gynnal neu ei gynnal yn rhannol.

11.4.5 Bydd yr Ymchwilydd/Ymchwilwyr yn cynhyrchu adroddiad, yn egluro eu penderfyniad ysgrifenedig yn crynhoi eu canfyddiadau a'u hystyriaethau a arweiniodd at iddynt gyrraedd eu penderfyniad ac amlinellu unrhyw sancsiynau, argymhellion neu gamau dilynol os oes angen. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Parti sy'n Adrodd a'r Parti Ymatebol.

**11.5 Cyfarwyddyd ar gyfer Ystyried yr Adroddiad Ymchwilio**

11.5.1 Yn dilyn hyn bydd penderfyniad yn cael ei gymryd gan y DSPSA neu'r person a enwebir y dylai'r achos gael ei ystyried dan un o'r achosion isod:

- Os yw'r myfyriwr wedi cyfaddef eu bod yn euog o dorri amodau, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Ddeon y Gyfadran neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr fydd yn penderfynu ar gosb briodol yn unol ag eitemau a-n o'r Cosbau adran 12. Bydd y Cyfwelydd Disgyblu yn cwrdd gyda'r myfyriwr er mwyn darparu'r canlyniad. Fodd bynnag, os penderfynir mai'r gosb briodol fyddai allgáu neu ddiarddel (cosbau p-s), bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Banel Disgyblu llawn.
- Os yw'r achos i gael ei symud ymlaen i gael ei ystyried gan Banel, bydd Cadeirydd y Panel yn penderfynu pa un o'r personau a gyfwelir yn ystod yr ymchwiliad fydd angen mynychu'r Gwrandawiad Disgyblu fel tystion er mwyn cynorthwyo gyda chyflwyno'r dystiolaeth. Bydd Ysgrifennydd y Panel yn gwahodd tystion fel y mae'n briodol; bydd gan y Panel yr holl Gosbau sydd ar gael iddynt i'w defnyddio.
- Nad yw achos cychwynnol wedi'i sefydlu gan y ffeithiau a gasglwyd ac y dylai'r achos gael ei ddiystyru. Bydd y canlyniad hwn ond yn cael ei roi ar waith gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr.

**11.6 Y Cyfweliad Disgyblu**

11.6.1 Os yw'r achos dan sylw yn unol â'r uchod a bod Deon y Gyfadran neu Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr wedi pennu'r gosb ac wedi darparu hyn yn ystod cyfweliad disgyblu, bydd gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y gosb a osodwyd ar y sail ganlynol:

- Na fu i'r gweithdrefnau gael eu dilyn yn gywir.
- Bod y penderfyniad a wnaed, neu'r canlyniad, yn afresymol.
- Nad wnaeth y darparwr ystyried y cais yn briodol, er enghraifft os oedd yn anwybyddu gwybodaeth berthnasol roedd y myfyriwr wedi'i chynnwys.
- Na wnaeth y darparwr roi rhesymau dros ei benderfyniad.
- Bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oeddent, am resymau da, yn gallu eu darparu yn gynharach yn y broses.
- Bod yna ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y broses.

11.6.2 Os yw'r sail ar gyfer apêl wedi'i sefydlu, bydd yr apêl yn cael ei drin yn unol â'r broses y manylir arni isod.

**11.7 Paratoi ar gyfer Gwrandawiad y Panel Disgyblu**

11.7.1 Bydd y Pennaeth Ansawdd yn penodi Ysgrifennydd i'r Panel Disgyblu a fydd yn gyfrifol am gynnull Panel Disgyblu sy'n cynnwys:

- Cadeirydd (o'r pwll o Gadeiryddion Panel sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd, o Adran wahanol i'r un mae'r myfyriwr yn ei astudio).
- Un aelod arall o staff academaidd neu weithredol sydd wedi'u pennu eu bod yn briodol gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr.
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu u person enwebedig, fydd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Undeb y Myfyrwyr.

Yn ychwanegol:

- Gall y Cadeirydd ddewis naill ai i benodi aelodau ychwanegol i'r Panel, hyd at fwyafswm o bum aelod gyda'i gilydd, neu i apwyntio cynghorwyr arbenigol i'r Panel. Gall un aelod o'r Panel a'r cynghorwyr arbenigol fod yn allanol i'r Brifysgol.

11.7.2 Ni fydd unrhyw aelod o'r Panel wedi bod ynghlwm gyda'r achos yn flaenorol.

11.7.3 Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr neu eu person enwebedig yn mynychu er mwyn darparu arweiniad rheoleiddiol. Ni fydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn gweithredu yn y capasiti hwn os ydynt yn gweithredu fel Swyddog Ymchwilio.

11.7.4 Os yw dau neu fwy o fyfyrwyr yn cael eu cyhuddo o droseddau cysylltiedig, mae'n debygol y bydd yn ddefnyddiol delio gyda'u hachosion gyda'i gilydd, er y dylai'r myfyrwyr gael y cyfle i ddadlau y dylai'r achosion gael eu clywed ar wahân.

11.7.5 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon hysbysiad at y myfyriwr o ddyddiad y gwrandawiad disgyblu, gan ddarparu 10 diwrnod gwaith o rybudd. Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn hysbysu tystion y Swyddog Ymchwilio o ddyddiad y gwrandawiad disgyblu.

11.7.6 Rhoddir dewis i'r myfyrwyr gyflwyno eu hachos yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'u dewis iaith.

11.7.7 Gall y myfyriwr gael cwmni yn y gwrandawiad er mwyn cael cefnogaeth gan fyfyriwr arall, cyfaill, perthynas, aelod o staff y Brifysgol (neu o goleg/sefydliad Partner), cynghorydd Undeb Myfyriwr neu unrhyw berson sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion unigol e.e. gofalwr, arwyddwr. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd y person hwnnw yn gweithredu ar sail gyfreithiol ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr oni bai bod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd penodol, ac oni bai y rhoddir rhybudd ymlaen llaw y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod ynghylch

cynrychiolaeth gan rywun sy'n gymwys yn gyfreithiol neu gynrychiolaeth gan gorff proffesiynol). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu mynychu gyda chwmni, rhaid iddynt roi gwybod i'r Ysgrifennydd am enw'r person hwnnw cyn y gwrandawiad a datgan p'un ai a oes gan y person gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, yr amser a'r lleoliad a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r person sy'n dod yn gwmni iddynt.

11.7.8 Mae gan y myfyriwr hawl i gael mynediad at gefnogaeth gan adrannau cefnogi perthnasol megis yr adrannau Bywyd Myfyriwr a Champws drwy gydol y broses hon. Gall y myfyriwr hefyd gael mynediad at gefnogaeth annibynnol wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad disgyblu, gan Undeb y Myfyriwr.

11.7.9 Gall myfyriwr wneud cais am gael cwmni i ddod gyda hwy i wrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir, mewn amgylchiadau cyfyngedig, y gall y myfyriwr fod yn dymuno gwneud cais am fod â chwmni cyfreithiol mewn cyfarfod ymchwiliol neu wrandawiad panel. Mewn amgylchiadau cyfyngedig o'r fath, dylai cais ysgrifenedig gael ei gyflwyno o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn yr ymchwilir iddo a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (neu berson enwebedig).

11.7.10 Os caniateir y cais, bydd y Brifysgol yn cadw'r hawl i gael ei chynrychiolaeth gyfreithiol ei hun. Bydd pob parti yn gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod ac unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rhai sy'n gwmni iddynt.

11.7.11 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon adroddiad y Swyddog Ymchwilio a'r holl ddogfennaeth arall i gael eu hystyried gan y panel at y myfyriwr o leiaf saith diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

11.7.12 Bydd gan y myfyriwr yr hawl i gyflwyno datganiad i'w ystyried gan y Panel. Gallai hwn gael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Mewn achosion eithriadol gall Cadeirydd y Panel gytuno i dderbyn datganiad yn ddiweddarach.

11.7.13 Bydd y myfyriwr yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad os ydynt yn dymuno galw tystion i fynychu'r Panel. Lle mae myfyriwr yn dymuno galw tystion, byddant yn rhestru enwau'r bobl. Bydd Cadeirydd y Panel yn penderfynu p'un a fydd yn berthnasol i'r tystion fynychu. Cyfrifoldeb y myfyriwr fydd hysbysu eu tystion o fanylion y gwrandawiad.

11.7.14 Os yw myfyriwr yn rhoi gwybod y byddant yn mynychu'r gwrandawiad ond wedi hynny yn peidio â mynychu heb i unrhyw reswm nag ymddiheuriad gael ei ddarparu, bydd y gwrandawiad yn parhau yn eu habsenoldeb. Os darperir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu p'un ai i ganiatáu i'r achos gael ei ohirio ai peidio.

11.7.15 Os yw'r myfyriwr yn gwneud cais am ohiriad, mae'n bosib y gwneir cais am dystiolaeth ynghylch y mesurau lliniaru a'u cyflwyno i'r Cadeirydd i'w cymeradwyo. Os cymeradwyir hwy gan y Cadeirydd, caniateir gohirio ond dim ond ar un achlysur yn unig.

11.7.16 Os yw myfyriwr yn rhoi gwybod na fyddant yn mynychu'r gwrandawiad heb reswm da, neu na dderbynnir unrhyw ateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn eu habsenoldeb.

11.7.17 Os nad yw tyst ar gyfer y naill barti neu'r llall yn gallu mynychu'r gwrandawiad disgyblu, am reswm da, gall y Panel, mewn amgylchiadau eithriadol, gytuno i ystyried tystiolaeth ysgrifenedig y tyst absennol lle mae'r Panel o'r farn y byddai er budd cyfiawnder naturiol. Cyn cytuno i wneud hynny, mae'n bosib y bydd angen i'r Panel gael toriad er mwyn ystyried p'un a ddylent wneud hynny ai peidio.

11.7.18 Mewn achosion eithriadol gall Cadeirydd y Panel gytuno y gall tyst gyflwyno tystiolaeth yn ddienw. Yn yr achos hwn, bydd y tyst yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig.

11.7.19 Bydd gan y Panel y disgresiwn i gael toriad o'r gwrandawiad am reswm da, er enghraifft, ceisio gwybodaeth ychwanegol neu oherwydd nad oes tyst ar gael oherwydd salwch. Mae gan y myfyriwr hawl i wneud cais am doriad, gan ddarparu eu rheswm a/neu dystiolaeth ar gyfer y cais; bydd y Panel yn ystyried y cais ac yn darparu rhesymeg os yw'r cais yn cael ei wrthod

**11.8 Ymddygiad Gwrandawiad y Panel Disgyblu**

11.8.1 Bydd y gwrandawiad disgyblu'n cael ei gynnal yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

11.8.2 Ar ddechrau'r gwrandawiad, cyflwynir yr holl unigolion sy'n bresennol a cheir disgrifiad byr o'u rôl o fewn yr achos.

11.8.3 Bydd disgrifiad o amlinelliad yr achos ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys datganiad clir o bwrpas y gwrandawiad, y canlyniadau posib (Cosbau a-s) a'r modd y bydd y canlyniad yn cael ei gyfathrebu i'r partïon cysylltiedig.

11.8.4 Bydd y myfyriwr a'u cynrychiolydd neu berson sy'n gwmni iddynt yn bresennol drwy gydol y gwrandawiad hyd nes bydd y Panel yn dechrau pwyso a mesur.

11.8.5 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno achos y camymddwyn honedig i'r Panel yng ngŵydd eu myfyriwr a'u cynrychiolydd neu berson sy'n gwmni iddynt, oni bai ei fod wedi'i gytuno arno dan delerau 12.7.16 y dylai'r gwrandawiad fynd yn ei flaen yn absenoldeb y myfyriwr.

11.8.6 Gall y person sy'n gwmni i'r myfyriwr weithredu fel eu cynrychiolydd a gallant ymateb ar ran y myfyriwr os rhoddir caniatâd penodol gan y Cadeirydd. Mae gan y Cadeirydd / Panel yr hawl i ofyn am i fyfyriwr ateb y cwestiwn yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno.

11.8.7 Bydd y myfyriwr neu eu cynrychiolydd yn cael y cyfle i ddarparu cyfrif o'r digwyddiad ac unrhyw wybodaeth arall neu eglurhad eu bod yn dymuno i'r Panel ei ystyried.

11.8.8 Gall y Panel wahodd y Swyddog Ymchwilio i alw ar dyst, neu gall y Panel ddewis ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ei hun.

11.8.9 Bydd gan aelodau o'r Panel gyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio ac i'r tystion a'r myfyriwr.

11.8.10 Bydd y myfyriwr neu eu cynrychiolydd yn gallu cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio ac i'r tystion ac i'r Panel ac i alw eu tystion eu hunain. Bydd gan y Cadeirydd yr awdurdod i'w gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr dynnu'n ôl unrhyw gwestiwn y maent yn ystyried i fod yn amherthnasol i'r achos.

11.8.11 Fel arfer bydd y tystion yn bresennol yn y gwrandawiad dim ond i gyflwyno eu tystiolaeth eu hunain ac i ateb cwestiynau. Bydd tystion fel arfer yn tynnu'n ôl wedi iddynt roi tystiolaeth ond mae'n bosib y cânt eu hail-alw.

11.8.12 Mae'n bosib y bydd angen i diwtor personol y myfyriwr neu ymarferwr, os yw'n cael ei wahodd gan y myfyriwr, i gyflwyno datganiad i'r Panel.

11.8.13 Bydd y myfyriwr neu eu cynrychiolydd yn cael cyfle i ymateb i unrhyw wybodaeth a ddarperir ac i gyflwyno crynodeb o ddatganiad ar ddiwedd yr achos.

11.8.14 Bydd y Swyddog Ymchwilio, y myfyriwr a'u cynrychiolydd a thiwtor personol y myfyriwr neu'r cynghorydd yn tynnu'n ôl pan mae'r Panel yn dechrau pwyso a mesur.

11.8.15 Bydd y Panel yn pwyso a mesur yn breifat gan alw ar y Swyddog Ymchwilio a'r myfyriwr (a'u cynrychiolydd neu'r person sy'n gwmni iddynt) er mwyn egluro pwyntiau ansicr ynghylch ffeithiau a roddwyd eisoes yn unig. Os oes angen adalw, bydd y ddau barti angen dychwelyd er gwaetha'r ffaith mai dim ond un fydd angen egluro'r pwynt dan sylw.

11.8.16 Bydd unrhyw gynghorwyr proffesiynol a benodir gan y Panel (a benodir yn ychwanegol at aelodau o'r Panel) yn gallu cael eu cadw tra mae'r Panel yn pwyso a mesur yn breifat ond dim ond i'r graddau y gallai fod yn angenrheidiol i'w galw hwy i ddarparu cyngor arbenigol pellach y gwneir cais amdano gan y Panel.

**11.9 Canfyddiadau'r Panel**

11.9.1 Bydd y Panel yn cynnal yr honiad o gamymddwyn dim ond ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gerbron iddo, os yw'n fodlon yn ôl pob tebygolrwydd ei fod yn credu bod yr achos wedi'i brofi. Os yw aelodau o'r Panel yn gallu cytuno, yna y penderfyniad fydd hwnnw sy'n eiddo i fwyafrif yr aelodau. Pe bai penderfyniad yn cael ei rannu, bydd gan Gadeirydd y Panel bleidlais fwrw.

11.9.2 Os yw'r myfyriwr yn flaenorol wedi bod yn destun Gweithdrefn Ddisgyblu, bydd manylion y canlyniad blaenorol yn cael ei rannu gydag aelodau o'r panel unwaith mae'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud, mae'r honiadau wedi cael eu cynnal a bod aelodau o'r panel yn barod i roi cosbau ar waith. Bydd rhannu canlyniadau blaenorol yn galluogi traweffaith grynodol o ymddygiadau sy'n cael eu hailadrodd i gael eu hystyried, pan mae ymddygiadau o'r fath yn berthnasol i'r achos cyfredol.

11.9.3 Mae'n bosib y bydd y Panel yn canfod nad yw'r camymddwyn yn cael ei brofi.

11.9.4 Bydd yr holl bartïon yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad a'r gweithredoedd disgyblu (o Cosbau yn 12 a-r) i'w cymryd.

11.9.5 Bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig i'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith. Os oes penderfyniad ynghylch y gosb yn cael ei ohirio, bydd yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith pellach.

11.9.6 Bydd adroddiad o'r achosion yn cael ei wneud a'i gadw ar ffeil. Dylai'r adroddiad gynnwys y camymddwyn honedig, a chofnod o'r penderfyniad. Lle mae'r camymddwyn wedi'i brofi, dylai'r datganiad roi crynodeb byr o'r dystiolaeth a dderbyniwyd ar sail y canfyddiad, y gosb a roddwyd, a'r ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth benderfynu ar y gosb.

## 12 Cosbau

12.1 Os yw'r drosedd honedig yn cael ei chyflawni gan y myfyriwr ymatebol neu y canfyddir ei bod wedi'i phrofi, mae'n bosib y gwneir y penderfyniad i roi un neu fwy o'r canlynol ar waith:

- Gofyn am ymddiheuriad, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig i unrhyw berson yr effeithir arno gan weithredoedd y myfyriwr ymatebol.
- Rhoi rhybudd anffurfiol, cyn-reoleiddiol gyda chyngor ynghylch ymddygiad yn y dyfodol a chanlyniadau camymddwyn pellach.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr ymatebol i lofnodi eu bod yn ymgymryd ag ymddygiad da a fydd yn parhau ar gofnod y myfyriwr ymatebol dros hyd y cyfnod y byddant yn y Brifysgol.
- Rhoi cyfyngiadau rhesymegol ar waith ar gyfathrebu gyda myfyrwyr neu staff a enwir, a hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall fel ei gilydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr ymatebol gyfranogi mewn rhaglen addysgol addas er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch eu hymddygiad a chanlyniadau hynny.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr ymatebol gwblhau darn o waith adfyfyriol yn archwilio traweffaith eu hymddygiad a'r gwersi a ddysgwyd.
- Argymell y dylai'r myfyriwr ymatebol ymgysylltu gyda gwasanaeth cefnogi perthnasol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr ymatebol fynychu sesiwn cyfiawnder adferol neu sesiwn adfyfyrio.
- Darparu cerydd ysgrifenedig a fydd fel arfer yn cael ei gadw ar gofnod y myfyriwr ymatebol dros hyd y cyfnod y byddant yn y Brifysgol.

- Darparu rhybudd ysgrifenedig olaf a fydd fel arfer yn cael ei ddal ar gofnod y myfyriwr ymatebol dros hyd y cyfnod eu hastudiaethau.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr ymatebol dalu costau am unrhyw niwed a/neu golledion a achoswyd i'r Brifysgol neu unrhyw drydydd parti o ganlyniad i'w gweithredoedd.
- Tynnu'n ôl rai gwasanaethau penodol a/neu wahardd y myfyriwr ymatebol o ardaloedd penodol o'r Brifysgol e.e. y Llyfrgell, am gyfnod penodedig o amser, fel arfer hyd at ddiwedd y semester, a lle mae'n briodol, bydd trefniadau amgen yn cael eu gwneud er mwyn hwyluso eu hastudiaethau parhaus.
- Y rhoddir rhybudd i'r myfyriwr ymatebol i adael llety sy'n eiddo i'r Brifysgol yn unol ag Amodau Preswylio.
- Cyfeirio'r mater ar gyfer gweithredu dan weithdrefn Prifysgol arall, megis Addasrwydd i Ymarfer, Cefnogi Astudio neu Gamymddwyn Academaidd.
- Y dylai'r myfyriwr ymatebol gael ei wahardd o'r Brifysgol am gyfnod penodol o amser, ac i arddangos bod rhai amodau penodol wedi eu cyflawni cyn iddynt gael eu hail-dderbyn.
- Y dylai'r myfyriwr ymatebol gael ei dynnu'n ôl o'r Brifysgol, ac arddangos bod rhai amodau penodol wedi eu cyflawni cyn iddynt gael eu hail-dderbyn.
- Y dylai'r myfyriwr ymatebol gael ei eithrio o'r Brifysgol (DS. Pan fo'r myfyriwr yn fyfyriwr rhyngwladol, hysbysir UKVI bod eu fisa'n cael ei thynnu'n ôl).
- Y dylai dyfarniad (ymadael neu derfynol) y myfyriwr ymatebol gael ei dynnu'n ôl.

12.2 Gellir dyfarnu'r gosb/cosbau hyd at, a chan gynnwys Cosb n mewn Cyfweliad Disgyblu. Gall Pwyllgor Disgyblu roi unrhyw un o'r cosbau uchod ar waith yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu.

12.3 Pe bai astudiaethau'n cael eu dirwyn i ben neu eu diarddel o'r Brifysgol bydd Panel y Gwrandawiad yn penderfynu:

- P'un ai i argymell i'r Bwrdd Asesu bod y myfyriwr yn derbyn unrhyw ddyfarniad terfynol neu ymadael y maent wedi ennill y nifer priodol o gredydau academaidd. Lle mae argymhelliad y dylai dyfarniad terfynol neu ymadael gael ei dynnu'n ôl, dylai bod rhesymau eglur a chymhellol dros hyn a dylai'r argymhelliad gael ei gyfathrebu wrth Gadeirydd y bwrdd asesu perthnasol gan ddefnyddio'r ffurflen briodol.
- Os oes gan y myfyriwr fenthyciad myfyriwr neu fwrsariaeth, bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu'r corff sy'n dyfarnu'r fwrsariaeth yn cael eu hysbysu pan mae'r gosb a ddyfarnir naill ai yn allgáu dros gyfnod penodol neu eu diarddel.
- Wrth benderfynu ar y gosb, dylai'r Panel ystyried canlyniad unrhyw achos gan Awdurdod Statudol Allanol a ph'un a fyddai'n briodol i'r Brifysgol osod cosb ychwanegol ai peidio.

12.4 Pan fydd honiadau o gamymddwyn yn cael eu profi, bydd y corff proffesiynol a statudol perthnasol a/neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hysbysu o ganlyniad y gwrandawiad disgyblu. Pan fo disgresiwn yn bodoli, bydd hyn yn benderfyniad ar y cyd rhwng y

Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr a Deon y Gyfadran lle mae'r myfyriwr yn astudio ar y cyd gyda Phennaeth Cymorth a Lles Myfyrwyr, neu yn eu habsenoldeb, aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

12.5 Mae Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006) yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol i wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn rhai amgylchiadau. Byddai hyn, fel arfer, pan mae'r Brifysgol wedi tynnu myfyriwr o weithgaredd reoledig oherwydd bod y myfyriwr wedi achosi niwed neu wedi peri risg o niwed yn y dyfodol i blant neu oedolion sy'n agored i niwed.

12.6 Mae pob elfen o Delerau ac Amodau Preswylio yn gymwys.

12.7 Dylid gwneud atgyfeiriad pan fydd myfyriwr wedi:

- Cael rhybudd neu gael ei gael yn euog o drosedd berthnasol; neu
- Ymwneud ag ymddygiad perthnasol mewn perthynas â phant a/neu oedolion agored i niwed (h.y., gweithred neu ddiffyg gweithred (esgeulustod) sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed neu wedi'u rhoi mewn perygl o niwed); neu
- Yn fodlon bod y Prawf Niwed mewn perthynas â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed (h.y. os nad oes unrhyw ymddygiad perthnasol ond bod perygl o niwed i blentyn neu'r oedolyn bregus sy'n parhau i fodoli).
- (Cyfeiriwch at y Polisi ar Atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; Myfyrwyr)

12.8 Lle nad yw honiadau o gamymddwyn wedi cael eu profi, dylai'r Brifysgol ystyried fodloni costau rhesymol y myfyriwr.

## 13 Y Broses Apelio yn erbyn penderfyniad y Gwrandawiad Disgyblu.

13.1 Dylai myfyriwr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Panel Gwrandawiad Disgyblu gyflwyno Ffurflen Apêl Ymddygiad wedi'i chwblhau (cysylltwch gyda StudentConduct@wrexham.ac.uk) yn ysgrifenedig, **o fewn 10 diwrnod gwaith** i dderbyn hysbysiad o'r Panel Gwrandawiad Disgyblu.

13.2 Dylai'r datganiad ysgrifenedig amlinellu'r holl faterion y maent angen i'r Brifysgol eu hystyried er mwyn cefnogi'r apêl, y sail dros yr apêl a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

13.3 Dim ond ar y sail ganlynol y gellir ystyried apêl:

- Bod tystiolaeth berthnasol ar gael sydd, am resymau da, heb gael ei dwyn i sylw'r Panel ac y mae'r myfyriwr yn credu ei bod yn berthnasol ar y materion sydd dan ystyriaeth.
- Bod yna anghysondeb perthnasol yng ngweithrediadau'r Panel Gwrandawiadau Disgyblu.

- Bod y penderfyniad y daethpwyd iddo yn afresymol yng ngoleuni'r dystiolaeth oedd ar gael.
- Bod y gosb yn anghymesur dan yr amgylchiadau.
- Mewn perthynas ag apêl yn erbyn y gosb a osodwyd, bod amgylchiadau esgusodol yn bodoli, sydd, am reswm da, heb gael eu dwyn i sylw'r Panel.

13.4 Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (neu berson enwebedig) yn trosglwyddo'r Datganiad Apêl i aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd cyn hynny heb fod yn ymwneud â'r achos ac a fydd yn ystyried Datganiad yr Apêl ac yn pennu os yw'r achos yn bodloni'r sail ar gyfer ystyriaeth. Lle mae aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn ystyried bod y sail wedi'i fodloni, yna bydd yr apêl yn cael ei gwrando gan Banel Apêl, oni bai y pennir ei fod yn briodol i ailgynnull y Panel Gwrandawiadau Disgyblu i adolygu ei benderfyniad. Ystyrir bod yr opsiwn hwn yn briodol lle, yn benodol, mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg nad oedd ar gael i gyfarfod gwreiddiol y Panel Gwrandawiad Disgyblu. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r myfyriwr gael ei wahodd i fynychu, ynghyd â'r Swyddog Ymchwilio ac unrhyw dystion newydd a nodir gan y myfyriwr neu sy'n cael eu hystyried gan Gadeirydd y Gwrandawiad Disgyblu yn berthnasol i ystyriaeth effeithiol a theg o'r apêl. Gall y myfyriwr gael cynrychiolydd a ddewiswyd yn gwmni (bydd yr amodau y manylir arnynt isod yn gymwys).

13.5 Ac eithrio lle caiff yr achos ei atgyfeirio'n ôl i'r Panel Disgyblu, bydd Panel Apêl yn cael ei gynnull er mwyn ystyried yr apêl. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys:

- Cadeirydd fydd yn aelod o'r uwch dîm rheoli sydd heb fod ynghlwm â'r achos yn flaenorol.
- Llywydd Undeb y Myfyriwr, neu berson enwebedig sy'n aelod o bwyllgor gwaith Undeb y Myfyriwr ac sydd heb fod yn ymwneud â'r achos yn flaenorol.
- Un aelod arall o staff academaidd neu weithredol y pennir u bod yn briodol gan y Cadeirydd ac nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r achos yn flaenorol.

13.6 Gall y Cadeirydd ddewis naill ai i benodi aelodau ychwanegol i'r Panel, hyd at fwyafswm o bum aelod gyda'i gilydd, neu i apwyntio cynghorwyr arbenigol i'r Panel. Lle mae'r apêl yn erbyn cosb neu ddiarddeliad, bydd aelod annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr yn dod yn rhan o'r Panel Apêl. Gall un aelod o'r Panel a'r cynghorwyr arbenigol fod yn allanol i'r Brifysgol. Ni fydd unrhyw aelod o'r Panel wedi bod ynghlwm gyda'r achos yn flaenorol. Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr neu eu person enwebedig yn mynychu er mwyn darparu arweiniad rheoleiddiol, a bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn penodi Ysgrifennydd i'r Panel Apêl. Ni fydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn gweithredu yn y capasiti hwn os ydynt yn gweithredu fel Swyddog Ymchwilio.

13.7 Gall y myfyriwr gael cwmni myfyriwr arall, cyfaill, perthynas, aelod o staff y Brifysgol (neu o goleg/sefydliad Partner), cynghorydd Undeb Myfyriwr neu unrhyw berson sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion unigol e.e. gofalwr, arwyddwr. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd y person hwnnw yn gweithredu ar sail gyfreithiol ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr oni bai bod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd penodol, ac oni bai y rhoddir rhybudd ymlaen llaw y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod ynghylch cynrychiolaeth gan rywun sy'n gymwys yn gyfreithiol

neu gynrychiolaeth gan gorff proffesiynol). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu mynychu gyda chwmni, rhaid iddynt roi gwybod i'r Ysgrifennydd am enw'r person hwnnw cyn y gwrandawiad a datgan p'un ai a oes gan y person gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, yr amser a'r lleoliad a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r person sy'n dod yn gwmni iddynt. Mae gan y myfyriwr yr hawl i geisio cefnogaeth gan yr adrannau Bywyd Myfyriwr a Champws perthnasol wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Rhoddir dewis i'r myfyrwyr gyflwyno eu hachos yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'u dewis iaith. Gall myfyriwr wneud cais am gael cwmni i ddod gyda hwy i wrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir, mewn amgylchiadau cyfyngedig, y gall y myfyriwr fod yn dymuno gwneud cais am fod â chwmni cyfreithiol mewn cyfarfod ymchwiliol neu wrandawiad panel. Mewn amgylchiadau cyfyngedig o'r fath, dylai cais ysgrifenedig gael ei gyflwyno o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn yr ymchwilir iddo a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (neu berson enwebedig).

13.8 Os caniateir y cais, bydd y Brifysgol yn cadw'r hawl i gael ei chynrychiolaeth gyfreithiol ei hun. Bydd pob parti yn gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod ac unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rhai sy'n gwmni iddynt. Os yw myfyriwr yn rhoi gwybod y byddant yn mynychu'r gwrandawiad ond wedi hynny yn peidio â mynychu heb i unrhyw reswm nag ymddiheuriad gael ei ddarparu, bydd y gwrandawiad yn parhau yn eu habsenoldeb. Os darperir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu p'un ai i ganiatáu i'r achos gael ei ohirio ai peidio. Os yw'r myfyriwr yn gwneud cais am ohiriad, mae'n bosib y gwneir cais am dystiolaeth ynghylch y mesurau lliniaru a'u cyflwyno i'r Cadeirydd i'w cymeradwyo. Os cymeradwyir hwy gan y Cadeirydd, caniateir gohirio ond dim ond ar un achlysur yn unig. Os yw myfyriwr yn rhoi gwybod na fyddant yn mynychu'r gwrandawiad heb reswm da, neu na dderbynnir unrhyw ateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn eu habsenoldeb.

13.9 Bydd gan y Panel Apêl yr un disgresiwn i ystyried tystiolaeth tystion absennol fel y caniateir gan y Panel Disgyblu.

13.10 Gall y ddogfennaeth a gyflwynir i'r Panel Apêl gynnwys (yn ogystal â'r Datganiad o Apêl ac Adroddiad Gwrandawiad y Panel Disgyblu) y ddogfennaeth a gyflwynwyd i'r Panel Disgyblu, unrhyw fanylion ynghylch canlyniadau gwrandawiadau Gweithdrefn Ddisgyblu blaenorol a ystyriwyd mewn perthynas â chosbau a osodwyd gan y Panel Disgyblu ac unrhyw ddogfennaeth arall y mae'r parti'n ei ystyried i fod yn berthnasol i'r apêl. Dylai datganiadau tystion newydd neu ddogfennau newydd gael eu darparu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad cytunedig y gwrandawiad apeliadau.

13.11 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon yr holl ddogfennaeth i'w ystyried gan y Panel Apêl at y myfyriwr o leiaf saith diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

13.12 Bydd yr apêl yn cael ei gynnal yn yr un ffordd â'r Panel Disgyblu. Fodd bynnag, bydd y myfyriwr yn agor gwrandawiad yr apêl drwy gyflwyno'r achos dros eu hapêl, a ddylai gael ei gyfyngu i faterion a amlinellwyd yn flaenorol yn y Datganiad Apêl a bydd ganddynt yr hawl i alw ar dyst y mae ei dystiolaeth yn berthnasol ar sail yr apêl.

13.13 Bydd Cadeirydd y Panel Disgyblu gwreiddiol, os y gofynnir iddo gan y Panel Apêl, ar gael i fynychu gwrandawiad yr Apêl. Gall y Panel Apêl fod angen i aelodau eraill o staff fynychu fel y mae'n weld yn briodol. Bydd y Swyddog Archwilio a fynychodd y Panel Disgyblu gwreiddiol, os y gofynnir iddo gan y Panel Apêl, ar gael i fynychu'r gwrandawiad.

13.14 Bydd y Panel Apêl yn ystyried y ddogfennaeth sydd gerbron a'r achosion drosto. Bydd y Panel Apêl yn cymryd toriad er mwyn ystyried ei benderfyniad ac mae'n bosib y bydd yn ceisio cyngor cyfreithiol neu gyngor arbenigol arall os yw'n ystyried hyn yn briodol. Lle mae Panel Apêl wedi'i fodloni bod y penderfyniad disgyblu a'r gosb a osodwyd gan y Panel Disgyblu o fewn yr ystod o ymatebion rhesymol y gallai'r Panel Apêl fod wedi'u dethol, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gynnal. Mewn achosion eraill, gall y Panel Apêl gyfnewid penderfyniad gwahanol a allai gynnwys diystyru'r honiadau, rhoi cosb arall ar waith sydd naill ai'n fwy neu'n llai o ran difrifoldeb, neu mewn amgylchiadau eithriadol, gallant benderfynu anfon yr achos yn ei ôl gan Banel Disgyblu sydd wedi'i benodi mewn ffordd wahanol. Os nad yw aelodau o'r Panel yn gallu cytuno, yna y penderfyniad fydd yr un sy'n eiddo i fwyafrif yr aelodau. Pe bai penderfyniad yn cael ei rannu, bydd gan Gadeirydd y Panel bleidlais fwrw. Lle bynnag y mae'n bosib, bydd y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu i bob parti o fewn pum diwrnod gwaith i'r gwrandawiad apêl.

## 14 Colegau a Sefydliadau Partner

14.1 Os yw gweithdrefn y sefydliad partner/coleg wedi cael ei gweithredu, bydd y coleg/sefydliad partner yn gyfrifol am anfon y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

14.2 Lle nad yw coleg Partner yn aelod o gynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch, bydd cam Apêl unrhyw weithdrefn Ymddygiad yn cael ei ystyried gan Brifysgol Wrecsam.

## 15 Cyfrinachedd a Diogelu Data

15.1 Mae cyfrinachedd yn rhan bwysig o'r gweithdrefnau a ddarperir dan y polisi hwn. Mae pawb sy'n ymwneud â gweithrediad y polisi, p'un a yw'n gwneud cwyn neu ei fod yn ymwneud ag unrhyw ymchwiliad, yn gyfrifol am gadw at y lefel uchel o gyfrinachedd sydd ei angen. Ni fydd manylion yr ymchwiliad ac enwau'r person sy'n gwneud y gŵyn a'r person sy'n cael ei gyhuddo ond yn cael eu datgelu "os oes angen gwybod".

15.2 Mae cofnodion achos yn cynnwys manylion am y gwyn, sut roedd yr achos yn cael ei drin a bydd y canlyniad yn cael ei gadw dan Amserlen Cadw Cofnodion y Brifysgol.

15.3 Mae'n bosib y bydd torri cyfrinachedd yn arwain at gamau disgyblu dan Weithdrefn Ddisgyblu briodol y Brifysgol.

## 16 Y Gymraeg

16.1 Lle mae angen unrhyw gyfarfodydd ffurfiol dan y polisi a'r weithdrefn yma, bydd y sawl sy'n dwyn cwyn a'r ymatebydd yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

16.2 Darperir gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ffurfiol a ofynnir amdanynt drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg lle cynhelir cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 17 Hyfforddi, Monitro ac Adolygu

17.1 Darperir hyfforddiant i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r weithdrefn.

17.2 Ymgymerir â monitro'r broses drwy recordio achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol wedi'i anonymeiddio i'w ystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol neu bwyllgor priodol o'r Bwrdd Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data achos ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant, gan gynnwys adnabod cyfleoedd hyfforddi pellach.

## 18 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIAHE)

18.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn rhan o'r cynllun annibynnol ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr. Unwaith mae'r gweithdrefnau perthnasol uchod wedi cael eu disbyddu gall y myfyriwr fynd â'u cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA).

18.2 Rhaid i Ffurflen Gais Cynllun gael ei anfon i'r OIA **o fewn deuddeg mis** i ddyddiad hysbysu cwblhau llythyr gweithdrefnau. Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais Cynllun o wefan yr OIA http://www.oiahe.org.uk (neu gallwch ffonio neu ysgrifennu at yr OIA i gael ffurflen).

18.3 Y manylion cyswllt ar gyfer yr OIA yw: Office of the Independent Adjudicator Second Floor Abbey Gate 57-75 Kings Road Reading RG1 3AB Ffôn: 01189 599813 E-bost: enquiries@oiahe.org.uk.

## 19 Hygyrchedd

19.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n ystyriol o drawma o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os ydych angen addasiadau i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych chi unrhyw sylw arall i'w wneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn, cofiwch e-bostio'r tîm ar quality@wrexham.ac.uk.

## 20 Atodiad 1 - Diffiniadau

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| **Camddefnyddio Pŵer:** | Sefyllfa lle mae person gyda chyfrifoldebau yn camddefnyddio eu grym er mwyn rhoi pwysau mewn ffordd:<br>• A allai arwain at unigolyn yn gwneud rhywbeth, neu'n ymatal rhag gwneud rhywbeth na fyddent fel arall wedi'i wneud.<br>• Gallai'r weithred neu ddiffyg gweithredu arwain yn rhesymol at rywbeth sy'n disgyn o fewn cwmpas perthynas bersonol agos. |
| **Defnydd o Alcohol a/neu Gyffuriau** | Dylid gwerthuso analluedd yn deillio o ddefnyddio alcohol neu gyffuriau ar sail sut mae'r alcohol/cyffuriau wedi effeithio'r unigolyn; gall arwyddion analluedd gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, un neu fwy o'r canlynol: siarad yn aneglur, yn an-sad ar eu traed, cochni yn y llygaid, cannwyll y llygaid wedi lledu, ymddygiad anarferol, llewygu, diffyg rheolaeth dros symudiadau corfforol, diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd o'u cwmpas, ac/neu analluedd i gyfathrebu'n effeithiol. Nid yw meddwdod byth yn amddiffyniad dros gyflawni gweithredo o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais, neu ar gyfer methu â sicrhau caniatâd. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch lefel neu raddau analluedd rhywun ei hun neu rywun arall, yr agwedd fwyaf diogel i'w chymryd yw peidio â chymryd rhan mewn gweithred rywiol. |
| **Bwlio** | Mae bwlio yn ymddygiad ymosodol, bygythiol, maleisus neu ddifenwol yn ymwneud â chamddefnyddio pŵer sy'n gallu gwneud person deimlo'n agored i niwed, yn ofidus, yn llawn cywilydd, wedi'u tanseilio neu eu bygwth. Dyw pŵer ddim wastad yn golygu bod mewn awdurdod, ond gall gynnwys cryfder personol a'r pŵer i reoli drwy greu ofn neu fygwth. Gall bwlio ddigwydd yn gyhoeddus neu'n breifat.<br><br>Gall bwlio fod ar ffurf ymddygiad corfforol, geiriol a di-eiriau megis cyfathrebiad ysgrifenedig. 7.3 eithrio rhywun yn fwriadol o gyfarfodydd neu gyfathrebiadau heb fod rheswm da dros wneud hynny. Ni fydd beirniadaeth gyfiawn, resymol ac adeiladol o berfformiad neu ymddygiad myfyriwr, neu gyfarwyddyd rhesymol a roddwyd i fyfyrwyr yn y Brifysgol yn cyfateb i fwlio ar ei ben ei hun. |
| **Capasiti i roi caniatâd** | Ni ellir rhoi caniatâd os nad oes gan yr unigolyn y capasiti i roi caniatâd. Mae unigolyn heb gapasiti pan mae'n cysgu, yn anymwybodol, yn lled-ymwybodol, neu mewn cyflwr o fod yn ymwybodol yn ysbeidiol, neu unrhyw gyflwr arall o anymwybyddiaeth y gall gweithred rywiol fod yn digwydd. Gall diffyg capasiti ddigwydd oherwydd anabledd meddyliol neu ddatblygiadol, neu o ganlyniad i ddefnyddio alcohol neu gyffuriau. |

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| **Caniatâd:** | Mae gan unigolyn ddewis p'un ai i fwrw ymlaen gyda sefyllfa ac mae ganddo'r capasiti i wneud y dewis hwn. Caiff hyn ei amlinellu yn Adran 26 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (2003) lle maent yn diffinio caniatâd fel "os ydynt yn cytuno drwy ddewis ac mae ganddynt y capasiti i wneud y dewis hwnnw". |
| **Gorfodaeth neu Bwysau** | Unrhyw niwed corfforol neu emosiynol neu fygythiad o niwed corfforol neu emosiynol a allai'n rhesymol roi unigolyn mewn sefyllfa o fod yn ofni niwed yn syth neu yn y dyfodol, gyda'r canlyniad bod yr unigolyn wedi'i gymell i gymryd rhan mewn gweithred rywiol. |
| **Rheolaeth Orfodol neu Ymddygiad Rheolaethol:** | Gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, dwyn cywilydd a chodi ofn neu ffurf arall ar gam-drin a wneir er mwyn niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr, fel y'i diffinnir gan Women's Aid. |
| **Cyfranogaeth** | Unrhyw weithred sydd yn fwriadol yn helpu, hyrwyddo, neu annog unrhyw ffurf ar Gamymddygiad Rhywiol a Thrais gan unigolyn arall. |
| **Cyfrinachedd** | Bydd yn cael ei gynnal, lle mae'n bosib drwy gydol y prosesau Datgelu, Adrodd ac Ymchwilio er mwyn cydnabod natur sensitif materion sy'n ymwneud â Chamymddwyn Rhywiol a Thrais. I bob pwrpas, bydd y wybodaeth fel arfer ond yn cael ei rannu gydag unigolion/endidau perthnasol (a allai fod yn fewnol neu'n allanol i'r Brifysgol, e.e. cwnselwyr mewnol, tystion, arbenigwyr allanol o asiantaethau arbenigol megis Rape Crisis, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol neu'r Heddlu) gyda chytundeb y Parti sy'n Adrodd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, a gall fod dan rwymedigaeth, er mwyn rhannu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle gall fod yn angenrheidiol i amddiffyn unrhyw unigolyn neu gymuned ehangach y Brifysgol o niwed neu atal trosedd rhag digwydd. Rhaid i'r holl unigolion sydd ynghlwm wrth unrhyw broses dan y Polisi hwn gadw gwybodaeth sydd wedi'i datgelu iddynt yn rhan o'r broses yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig o wybodaeth gyfrinachol yn cael ei ystyried yn amhariad ar Bolisi a bydd yn cael ei ddelio ag o fel sy'n briodol. Drwy gydol yr holl weithrediadau bydd y Brifysgol yn cydymffurfio gyda Deddf Gwarchod Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). |
| **Caniatâd** | Cytundeb drwy ddewis lle mae gan yr unigolyn y rhyddid a'r capasiti i wneud y dewis hwnnw. Ni ellir cymryd caniatâd yn ganiataol ar sail profiad rhywiol blaenorol neu ganiatâd a roddwyd yn flaenorol, neu o absenoldeb cwyn, a bydd pob gweithred rywiol newydd angen ail-gadarnhau caniatâd fel sail perthynas rywiol iach a pharchus. Gall caniatâd gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod gweithred rywiol.  Caiff hyn |

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| | ei amlinellu yn Adran 26 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (2003) lle maent yn diffinio caniatâd fel "os ydynt yn cytuno drwy ddewis ac mae ganddynt y capasiti i wneud y dewis hwnnw". |
| **Y Parti sy'n Datgelu:** | Y person(au) sydd wedi gwneud y Datgeliad ynghylch profiad o Gamymddwyn a Thrais Rhywiol. |
| **Datgeliad:** | Bod unigolyn yn dweud wrth aelod o Gymuned y Brifysgol eu bod wedi profi Camymddwyn a Thrais Rhywiol /Aflonyddu / Bwlio neu weithred Ddisgyblu arall. Nid yw hyn yn cyfateb i Adrodd yn ffurfiol am weithred dan y Weithdrefn Ddisgyblu. Byddai Datgeliadau'n derbyn cefnogaeth a chyngor (a gallant fynd yn eu blaenau i fod yn rhan o Adroddiad ar gyfer gweithredu), lle mae Adroddiadau'n cael eu hymchwilio dan y weithdrefn briodol. |
| **Cam-drin Domestig:** | Mae Adran 1(3) o'r Ddeddf Cam-drin Rhywiol yn ystyried ymddygiad treisgar fel:<br>• Cam-drin corfforol neu rywiol<br>• Ymddygiad treisgar neu fygythiol<br>• Ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol<br>• Cam-drin economaidd<br>• Cam-drin seicolegol, emosiynol neu unrhyw gam-drin arall.<br><br>Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi, yn bygwth, neu drais neu gam-drin rhwng rhai sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol a/neu emosiynol. |
| **Rhyddid i Roi Caniatâd** | Er mwyn i ganiatâd fod yn bresennol, rhaid i'r unigolyn gymryd rhan mewn gweithred rywiol yn wirfoddol. Ni ellir cymryd bod caniatâd yn cael ei roi oherwydd diffyg gwrthwynebiad geiriol neu gorfforol. Nid yw caniatâd yn bresennol pan mae'r sawl sy'n cyfranogi yn anfoddog yn digwydd o ganlyniad i fod yn cael eu rheoli, gorfodaeth, bygythiad, brawychu neu ecsbloetio pŵer. |
| **Aflonyddu** | Aflonyddu yw unrhyw ymddygiad corfforol, geiriol neu ddi-eiriau sy'n tarfu ar urddas person neu sy'n creu amgylchedd brawychus, gelyniaethus, ddiraddiol, bychanol, neu dramgwyddus. Gall gweithred unigol fod gyfystyr ag aflonyddu.<br><br>Gall fod yn gysylltiedig â nodweddion megis rhyw, hil, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, neu oedran, ond mae'n annerbyniol waeth beth fo'r bwriad neu ddosbarthiad cyfreithiol. Mae canfyddiad yr unigolyn yr effeithir arno a ph'un |

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| | a allai'r ymddygiad gel ei weld yn rhesymegol fel bod yn dramgwyddus yn ffactorau allweddol. Mae parhau gydag ymddygiad wedi i rywun ddweud ei fod yn annymuniedig hefyd gyfystyr ag aflonyddu. 4.5 Gall person gael ei aflonyddu hyd yn oed os nad hwy oedd y "targed" bwriadol. Er enghraifft, gall person gael ei aflonyddu gan jôcs hiliol ynghylch grŵp ethnig gwahanol os ydynt yn creu amgylchedd ymosodol ar eu cyfer. |
| **Digwyddiadau / Troseddau Casineb** | 'Gall unrhyw drosedd sy'n cael ei chymell gan elyniaeth ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol gael i ystyried yn drosedd casineb.'1<br><br>Digwyddiad casineb yw unrhyw ddigwyddiad lle mae'r dioddefwr, neu unrhyw un arall yn meddwl ei fod yn seiliedig ar ragfarn rhywun tuag atynt oherwydd eu hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol.<br><br>Bydd unrhyw drosedd casineb yn cael ei thrin fel ffurf ar Aflonyddu dan y Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adrodd am unrhyw ddigwyddiad wrth yr Heddlu y mae'n ystyried i fod yn drosedd. |
| **Cam-drin yn Seiliedig ar Anrhydedd:** | Mae'n ffurf ar Gam-drin Domestig sy'n cael ei gymell gan ganfyddiad y sawl sy'n cam-drin bod person wedi dwyn, neu y gallai ddwyn 'gwaradwydd' neu 'gywilydd' arnynt eu hunain, eu teulu neu'r gymuned, fel y'i diffinnir gan Karma Nirvana. |
| **Digwyddiadau:** | Achos o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig sy'n cynnwys ystod eang o amgylchiadau. Er enghraifft, mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i honiadau, cwynion, amheuaeth o ymddygiad, a chanfyddiadau ffurfiol o Gamymddwyn Rhywiol neu Gam-drin Domestig. Mae hyn yn golygu ei fod hefyd yn cynnwys achosion lle na wneir Adroddiad, neu lle mae'r dystiolaeth yn annigonol er mwyn gallu symud ymlaen at achosion disgyblu. |
| **Adrodd yn faleisus** | Mae'n digwydd pan fo unigolyn yn rhannu honiad o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais y mae'r unigolyn yn gwybod nad oes sail ffeithiol iddo. |
| **Adrodd:** | Aelod o Gymuned y Brifysgol yn rhannu eu bod wedi profi Camymddwyn a Thrais Rhywiol /Aflonyddu / Bwlio neu weithred Ddisgyblu arall at bwrpas rhoi gweithdrefn adrodd ffurfiol ar waith. Mae adroddiadau, yn wahanol i ddatgeliadau, yn rhoi caniatâd i'r Brifysgol ddechrau ar ymchwiliad ffurfiol fel y'i hamlinellir yn y Polisi hwn a'r gweithdrefnau atodol (mae Adroddiad yn wahanol i Ddatgeliad). |

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| **Y Parti sy'n Adrodd:** | Y person(au) sydd wedi gwneud yr Adroddiad ynghylch profiad o Gamymddwyn a Thrais Rhywiol/ Aflonyddu / Bwlio neu weithred Ddisgyblu arall. |
| **Parti Ymatebol:** | Y person(au) a enwir mewn Adroddiad yr honnir iddynt fod wedi cyflawni gweithred o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais/ Aflonyddu / Bwlio neu weithred Ddisgyblu arall. |
| **Dial** | Bydd unrhyw eiriau neu weithredoedd, gan gynnwys codi braw, bygwth, neu orfodaeth a wnaed mewn ymateb i ddatgeliadau neu adroddiadau a wnaed dan y Polisi Camymddwyn Rhywiol a Thrais, gan unrhyw unigolyn gan gynnwys y Parti sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd, yn ogystal â thystion, ffrindiau a pherthnasau. |
| **Camfanteisio'n Rhywiol** | Mae Cymorth i Ferched Cymru yn diffinio hyn fel pan mae rhywun yn cael eu rheoli, dan orfodaeth, neu'n cael eu dylanwadu i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti, neu oherwydd rheidrwydd i ariannu anghenion sylfaenol. Mae gan gyflawnwyr fel arfer bŵer dros eu dioddefwyr, oherwydd oedran, rhywedd, hunaniaeth rywiol, cryfder corfforol, neu statws. Mewn sawl achos, bydd cyflawnwyr yn camfanteisio ac yn dylanwadu ar ddioddefwyr/rhai sydd wedi goroesi. |
| **Aflonyddu Rhywiol:** | Mae wedi'i ddiffinio dan adran 26(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw aflonyddu rhywiol yn drosedd yn ôl y gyfraith, ond mae ymddygiadau sy'n alinio gydag o yn cael eu delio â hwy dan y diffiniad o 'Gamymddwyn Rhywiol' ac yn Adran 6 isod. Pan mae cyffyrddiad yn gysylltiedig, megis cyffyrddiad corfforol nas dymunir neu gyffwrdd yn amhriodol, mae'n bosib y bydd yn croestorri gyda throseddau rhywiol mewn cyfraith trosedd. Mae'n bosib y bydd rhai ffurfiau yn gorgyffwrdd gyda throseddau eraill megis aflonyddu, stelcian neu rannu lluniau o natur rywiol er mwyn dial.<br><br>Mae'r Elusen Iechyd Rhywiol Brook yn amlinellu achosion o aflonyddu rhywiol fel unrhyw ymddygiad rhywiol nas dymunir sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofidus, yn ofnus, wedi'u tramgwyddo neu wedi'u cywilyddio, neu y bwriadwyd iddynt deimlo y ffordd yna. |
| **Camymddwyn a Thrais Rhywiol:** | Unrhyw ymddygiad o natur rywiol nas dymunir, neu ymgais ar ymddygiad o'r fath. Gall camymddwyn rhywiol ddigwydd drwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys drwy fecanweithiau ar-lein. |
| **Trydydd Part** | Unrhyw un nad yw'n rhan o gymuned y Brifysgol h.y. ddim yn aelod o staff neu fyfyriwr. |

| Gair / Cymal | Ystyr |
|---|---|
| **Datgeliadau trydydd parti neu ddatgeliadau gan dystion** | Lle mae'r person sy'n datgelu yn drydydd parti sydd heb brofi'r digwyddiad, megis person sydd wedi bod yn dyst i ddigwyddiad neu sydd wedi cael gwybod am y digwyddiad, bydd y Brifysgol yn parchu hawl yr unigolyn wnaeth brofi'r digwyddiad i ddewis sut i symud datgeliad yn ei flaen. Bydd datgeliad gan drydydd parti ond yn dod yn adroddiad os yw'r unigolyn wnaeth brofi'r digwyddiad am i gamau gael eu cymryd fel rhan o'r datgeliad. |
| **Cymuned y Brifysgol:** | Bydd cymuned y Brifysgol, gan gynnwys yr holl staff presennol, a chan gynnwys staff academaidd sesiynol a staff dros dro, myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr ac unrhyw drydydd parti sy'n rhyngweithio gyda'r Brifysgol megis contractwyr, gwasanaethau a ddarparwyd yn allanol a rolau ymweld. |
| **Blinderus** | Gwrthod derbyn unrhyw benderfyniadau rhesymegol sy'n codi o roi'r gweithdrefnau ategol i'r Polisi hwn ar waith. |
| **Adrodd yn Flinderus** | Creu adroddiad/au direswm, dan y Polisi Camymddwyn Rhywiol a Thrais. |
| **Erledigaeth** | Erledigaeth yw pan mae person yn achosi i berson arall fod dan anfantais oherwydd eu bod (neu eu bod yn credu eu bod), wedi gwneud honiadau o aflonyddu neu wahaniaethu, yn bwriadu gwneud honiad o'r fath neu wedi cynorthwyo neu gefnogi person i ddwyn honiad.<br><br>Gall enghreifftiau o dargedu gynnwys labelu unigolyn yn 'rhywun sy'n creu trafferth' a/neu wrthod eu symud ymlaen yn academaidd neu'n broffesiynol, gwrthod darparu geirda unwaith mae'r gwaith neu'r berthynas ddysgu wedi dod i ben, neu eu trin mewn unrhyw ffordd sy'n llai ffafriol o ganlyniad i'w gweithredoedd.<br><br>Mae targedu yn anghyfreithlon dan ddeddfwriaeth aflonyddu a gwahaniaethau a bydd yn cael ei drin fel ffurf o Aflonyddu dan y Polisi hwn. |
| **Trais yn Erbyn Menywod a Merched** | Mae trais yn seiliedig ar rywedd, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol lle mae'r dioddefwr yn fenywaidd, fel y'i diffinnir yn Adran 2 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. |